

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 518 · Mawrth 2021 · Rhifyn Digidol · Am Ddim

Dathlu'r Carneddau



Y Waun Lydan a'r Carneddau o Lidiart y Graean. (llun: Mari Emlyn Wyn)

Ar 1 Mawrth 2021, lansiodd Partneriaeth Tirwedd y Carneddau rownd gyntaf rhaglen grantiau Cronfa Gymunedol y Carneddau. Bydd grantiau o rhwng £200 a £5,000 ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol bach i ganolig eu maint sy'n cyd-fynd ag amcanion Partneriaeth Tirwedd y Carneddau.

Mae'r Partneriaeth yn croesawu mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer rhaglen grantiau Cronfa Gymunedol y Carneddau. Mae'r rhaglen ar agor i grwpiau a mudiadau di-elw ardal y Carneddau a'r cyffiniau – gan gynnwys cyrff cyhoeddus, grwpiau cymunedol a phartneriaethau.

Dyma gyfle i wireddu syniadau am brosiectau arloesol a chreadigol sy'n helpu pobl i ddarganfod, gwarchod a dathlu eu treftadaeth leol. Gall hyn fod drwy brosiect celf, dehongli newydd a chreadigol, teithiau rhithiol, cyrsiau dysgu ar-lein a mentrau lles a llawer mwy. Ariennir y Cynllun Partneriaeth Tirwedd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Panel Cronfa Gymunedol y Carneddau sy'n penderfynu pwy fydd yn derbyn y grantiau. Mae'r panel hwn yn cynnwys gwirfoddolwyr sy'n byw yn yr ardal ac sydd â diddordeb

mewn cyfrannu at amcanion y Cynllun.

Mae Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau – casgliad o sefydliadau sydd wedi dod ynghyd dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – yn gynllun 5 mlynedd sy'n gweithio i hyrwyddo dyfodol cadarnhaol i'r Carneddau. Wrth wraidd y Cynllun mae gweledigaeth i helpu cynulleidfya mor eang â phosibl i ddarganfod, gwarchod a dathlu'r ardal.

Bydd y Cynllun yn helpu gwarchod treftadaeth yr ardal trwy hyrwyddo defnydd tir cynaliadwy sy'n amddiffyn cynefinoedd, rhywogaethau ac olion archeolegol prin, a thrwy gofnodi enwau lleoedd ac atgoion.

Meddai Beca Roberts, Swyddog Ymgysylltu Cymunedol Partneriaeth Tirwedd y Carneddau,

'Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar ein bywydau dydd-i-ddydd, ond rydym wedi gweld enghreifftiau o bobl a chymunedau ar draws y byd yn datblygu syniadau creadigol i gefnogi ei gilydd a gwneud y cyfnod clo ychydig yn fwy goddefadwy.'

'Gobeithiwn y bydd y Gronfa hon yn helpu i droi rhai o'r syniadau hynny'n realiti, trwy gefnogi prosiectau arloesol a fydd yn helpu pobl sy'n byw yn ardal y Carneddau

a'i chyffiniau i ddarganfod a chysylltu â'i threftadaeth unigryw ac arbennig.'

Dyweddodd Iwan Williams, cynhyrchydd creadigol cwmni Ffiwsar a phanelydd cymunedol:

'Dw i'n falch iawn o fod yn rhan o banel grantiau Cronfa Gymunedol y Carneddau fel aelod cymunedol. Mae'r rhaglen grantiau yn gyfle gwych i grwpiau'r ardal gyflwyno syniadau cyffrous sydd yn ymgysylltu cymunedau'r Carneddau a'r cyffiniau â'r dirwedd arbennig hon.'

'Dw i'n edrych ymlaen at weld pa syniadau creadigol sy'n cael eu cyflwyno, a gobeithio gweld ceisiadau uchelgeisiol fydd yn rhoi cyfle i edrych ar y Carneddau mewn ffyrdd newydd, gwerthfawrogi'r adnodd arbennig yma a chefnogi'r cymunedau cyfagos.'

Am fwy o wybodaeth am y cynllun ewch i: <https://www.snowdonia.gov.wales/looking-after/carneddau-partnership> a'r grantiau: <https://www.eryri.llyw.cymru/looking-after/carneddau-partnership/grants>

Hefyd, gellwch gysylltu â'r Swyddog Cyfathrebu a Dehongli, Lowri Roberts, am ragor o wybodaeth: lowri.roberts@eryri.llyw.cymru / 07918102040

Panel Golygyddol

Derfel Roberts

☎ 600965

derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts

☎ 07815 093955

l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans

☎ 07713 865452

Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans

☎ 07588 636259

owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd

☎ 07867 536102

carwynnian@hotmail.com

Rhys Llwyd

☎ 01248 601606

rml42@live.co.uk

Swyddogion

CADEIRYDD:

Dewi A Morgan, Park Villa,

Lôn Newydd Coetmor,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:

Neville Hughes, 14 Pant,

Bethesda LL57 3PA ☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,

3 Sgwâr Buddug, Bethesda

LL57 3AH ☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:

Godfrey Northam, 4 Llwyn

Bedw, Rachub, Llanllechid

LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:

Owen G Jones, 1 Erw Las,

Bethesda, Gwynedd

LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygydd rhifyn y mis hwn gan

Ieuan Wyn.


Golygydd rhifyn mis Ebrill fydd

Derfel Roberts, Llys Artro,

84 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG.

01248 600965.

E-bost: derfel.roberts@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn,****27 Mawrth,** os gwelwch yn dda.**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

RHODDION I'R LLAIS

£50.00 Er cof am Carys Williams,
12 Tal y Cae, Tregarth, oddi
wrth Arthur a'r teulu.

Diolch yn fawr.

APÊL ARBENNIG Y LLAIS

Mawrth 2021

Diolch yn fawr iawn i'r canlynol am eu
cyfraniadau ariannol i gynorthwyo'r
papur yn ystod y cyfnod hwn o
gyhoeddi rhifynnau digidol sydd ar
gael am ddim i'r darllenwyr:**£25.00** Alan ac Alwenna Puw,
Cefn y Bryn, Bethesda**£5.00** Anna Jones, Caernarfon**£20.00** Alan Davies, Penlôn,
Porthaethwy.**£20.00** Arfon ac Elisabeth Evans,
Penrhosgarnedd

Diolch yn fawr i bawb.



CYMRAEG

Rachub a
Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid,

Bangor, LL57 3LE

01248 605582 a 07887624459

henbarc13@gmail.com

Datblygiad Tai Cae Rhosydd

Y mae'r gwaith wedi dechrau i baratoi Cae Rhosydd ar gyfer yr adeiladwyr h.y. y mae'r coed wedi'u torri. Cafwyd cadarnhad taw dim ond pedwar o'r tai fydd ar ffurf byngalo o fewn y datblygiad er i'r Cynghorydd Godfrey Northam alw am fwy i fodloni'r galw.

Ysgol Sul Capel Carmel

Er bod Capel Carmel ar gau ar wahân i gynhebygau a phriodasau efo nifer cyfyngedig o fynychwyr, roedd yn dda clywed bod un o gyn-ddisgyblion yr Ysgol Sul (Laura Karadog o Bontyberem) wedi cael ei dewis i fod yn Is-gadeirydd Cymdeithas y Cymod.

Y Dafarn

Am nad oedd Y Dderwen Frenhinol yn medru cynnig "take aways", y mae'r dafarn ar gau, ond y mae'n dda gweld bod siop y pentref yn dal i fod yn agored, er bod yr oriau agor wedi lleihau ychydig yn ddiweddar.

Diolch

Diolchwn i Ron Jones am roi deunydd gwrth-rew i drigolion Llwyn Bedw, a dymunwn wellhad buan i'w wraig, Wendy.

Difrod

Achoswyd difrod i gyfarpar ynys Sgwâr Rachub yn ddiweddar, ond gosodwyd arwyddion dros dro a gobeithio y bydd y sefyllfa'n cael ei hadfer yn fuan.

Cydyndeimlad

Ein cydyndeimlad dwysaf â theulu a ffrindiau Augusta Williams, 7 Bron Arfon, Rachub a fu farw yn dilyn salwch.

Ein cydyndeimlad hefyd â theulu Andrew Robinson, mab y diweddar Muriel a Jock.

LLAIS OGWAN AR CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor

01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415

Neville Hughes ☎ 600853

Gwyntoedd Cryfion, Glawogydd Trymion a Lli Mawr



Afon Ffrydlas yng ngheunant y Bont Uchaf, wrth edrych i lawr o'r bont ar y rhaeadr

Wrth wylio swae'r glaw yn cael ei yrru'n llenni ar draws y dyffryn o flaen gwynt cryf sawl tro yn ystod y gaeaf hwn, roedd hi'n hawdd dychmygu sut y buasai hi pe bai'r glaw wedi troi'r eirlaw ac yna'n eira, fel y gwnaeth sawl tro yn y gorffennol. Mi fuasai hi wedi bod yn lluwchio, a'r gwynt yn hyrddio a sgyrtio, a lluwchfeydd yn hel i fyny ochrau'r tai a'r cloddiau. A ydi hyn yn arwydd o'r newid yn yr hinsawdd ac yn ganlyniad y cynhesu byd-eang? Mae'r arbenigwyr yn sôn ers tro y byddwn yn fwy tebygol o gael gaeafau gwlypach a llai o eira. Ac mae hi'n ymddangos hefyd bod gwyntoedd yn amlach ac yn gryfach.

Daeth y llifogydd eto, a chafwyd peth difrod wrth i Afon Ogwen orlifo'i glannau. Rhyfedd bob amser ydi gweld ei dolydd dan ddŵr, fel y Ddôl Fawr, Dôl Ddafydd a'r Ddôl Goch. At ei gilydd, rydym yn bur ffodus yn yr ardal yma gan fod Afon Ogwen yn afon redegog. Mae iddi ddalgylch glaw sylweddol – Ffynnon Lloer, Afon Denau, Llyn Bochlywd, Llyn Ogwen, Llyn Idwal, a holl ffrydiau Nant Ffrancon gan gynnwys Afon Gywion ac Afon Berthan – a hynny cyn cyrraedd Dyffryn Ogwen ei hun lle mae nifer dda o afonydd yn ymuno â hi wedyn. Fodd bynnag, er ei bod hi'n codi'r sydyn mae hi hefyd yn gostwng mewn byr o dro. Gwahanol iawn yw Afon Conwy, sydd hefyd efo dalgylch glaw eang. Afon ddofn ac araf ydi hi erbyn iddi gyrraedd Dyffryn Conwy a daw'r llanw i'w chyfarfod yn go uchel i fyny'r dyffryn nes peri llifogydd difrifol yn Llanrwst yn dilyn glawogydd trymion.



Afon Ogwen wedi gorlifo at y Lôn Las (llun: Mari Emlyn Wyn)

Mynydd Llandygai

Iona Rhys, Cwm Hyfryd, 9 Gefnan
☎ 602863 ionarhys@yahoo.co.uk

Ffion Jones, 1 Llwybr Main
Ffiff22@hotmail.com

Diolch

Dymunwn ddiolch yn fawr i Iona Rhys a Ffion Jones am eu parodwydd i fod yn gasglwyr newyddion y gymdogaeth.

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Llun a Mawrth - wedi cau

Mercher - Gwener 18:00 - 23:00

Sadwrn 15:30 - 00:00

Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

01248 602537



Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475

www.owenswales.co.uk

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Cefnogwch ein
hysbysebwy'r

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan,
Bethesda, LL57 3ST.
☎ 01248 602509 /
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd,
Gerlan, Bethesda,
LL57 3TY. ☎ 01248 601526

rhoi gwybodaeth am y claf a pha bryd y cawson nhw'r brechiad cyntaf ar y cyfrifiadur er mwyn i ni wybod pa bryd y byddan nhw'n cael yr ail frechiad yn y dyfodol. Hefyd, mae 'na tua 20 o staff yn ffonio pobl i'w bwcio nhw i mewn i gael y brechiad ac i ymateb i alwadau ffôn gan bobl. Mae'r ffôn yn brysur iawn. Dw i mor falch 'mod i'n medru helpu yn ystod adeg anodd iawn ar hyn o bryd."

Yr Ymgyrch Frechu

Mae David Roberts o Giltwllan, Gerlan yn gweithio fel Cynorthwydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Chefnogaeth Canser Macmillan yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor fel arfer. Ond ers ychydig o wythnosau, mae o wedi bod yn cefnogi nyrsys sy'n rhoi'r brechiad Pfizer i staff sy'n cael eu cyflogi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cysylltodd y Bwrdd Iechyd gyda David oherwydd eu bod nhw'n fyr o staff yn Ysbyty Enfys, Venue Cymru, Llandudno, a cynigiodd David helpu allan. "Cefais e-bost gan reolwr sy'n gyfrifol am gael pobl a nyrsys i helpu allan yn y canolfannau yma er mwyn rhoi brechiadau i'r cyhoedd, a rhoddais fy enw i lawr. Wnes i ddreifo i Landudn'n syth ar ôl gwaith ac fe wnes i helpu tan 8 o'r gloch y nos. A hefyd, wnes i helpu am 12 awr ar y dydd Sadwrn - 'roedd yn ddiwrnod prysur iawn. Fy ngwaith i oedd

Diolch o galon i ti David am wneud gwaith mor werthfawr, a hefyd i bawb arall sy'n gweithio, gwirfoddoli a threfnu'r ymdrech anhygoel yma i frechu pawb. Dan ni wir yn gwerthfawrogi'ch gwaith chi.

Profedigaeth

Gyrrwn ein cydymdeimlad i Val Hanks, Tantreflys. Bu i Val gollu ei brawd John yn ddiweddar. 'Roedd John yn enedigol o Glasinfryn ond yn byw mewn cartref yn Llangefni ers rhai blynnyddoedd erbyn hyn. Gyrrwn ein cofion cynhesaf atat, Val.

Llechi Cerdd

Os ydych chi'n cerdded o Gerlan i Fethesda neu'n dod i Gerlan am dro, cofwch edrych allan am lechi arbennig yng Ngroeslon Gerlan. Mae Alun Davies wedi bod yn brysur iawn yn dylunio a chynhyrchu'r llechi hyfryd yma sydd efo amrywiol gerddi arnynt ac maent wedi eu gosod ar ffens ei gartref o a Jan. Mae'n bleser cael eu darllen wrth basio ac edrych



lawr dros y pentref ac mae'n braf cael eich atgoffa o gerddi Cymraeg arbennig. Erbyn hyn, mae 'na un o gerddi R.S. Thomas i fyny hefyd. Dyma lun ambell un. Os hoffech

lechen efo cerdd arbennig arno i osod o gwmpas eich cartref, gallwch gysylltu gydag Alun ar 07761610808 neu alunpenrallt@gmail.com

Contractwyr Trydanol Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Croeso i Gerlan, Popi

Mae Alun a Jan hefyd wedi maethu ci bach am amser amhenodol, ac mae Popi efo nhw ers bron i wythnos bellach. Cefais y pleser o gyfarfod Popi yr wythnos yma ac 'roedd i weld wedi setlo'n dda iawn efo'i pherchnogion newydd ac yn mwynhau cerdded llwybrau Dyffryn Ogwen. Croeso i Gerlan Popi ac edrychwn ymlaen i dy weld o gwmpas y pentref!

gair neu ddau

John Pritchard

NÔL YNG NGLANDŴR

Mi fentrais trwy giât Glandŵr am y tro cyntaf ers i ni adael y tŷ dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Roeddwn yn eithaf siŵr na fyddai neb gartra gan mai tŷ haf ydi o ers blynyddoedd, gwaetha'r modd, a dyw pobl y tai haf ddim i fod yn Abersoch yng nghyfnod y Cloi Mewn. (Gwell i mi egluro bod gen i fy hun reswm cyfreithlon dros fod mor bell o gartra.) Roedd y giât yn agored gan fod y dreif yn cael ei rhannu â'r tŷ drws nesaf. Mae tŷ haul wedi ei godi o flaen y drws cefn. Mae'r ffenest ffals a baentiwyd uwch y drws ffrynt wedi diflannu. Mae ambell addurn a delw'n awgrymu nad yw'r sawl a brynodd y tŷ wedi i ni adael o'r un anian grefyddol â ni. Ac mae'r ardd yn llawn o lwyni gwylltion: synnwn i ddim nad yw pobl Abersoch yn gweld erbyn hyn nad oedd hi mor flêr wedi'r cyfan yr holl flynyddoedd y buont yn edliw i weinidog ifanc ei ddiffygion garddwriaethol.

Wn i ddim sawl gwaith y bûm yn ôl yn Abersoch. Anaml iawn y buom yno fel teulu. Ran amlaf, galwadau gwaith sydd wedi mynd â mi'n ôl ar fy mhen fy hun. Ond fûm i erioed yno heb i mi weld Glandŵr o'm blaen wrth gyrraedd y pentref a chael cip sydyn arno wrth yrru heibio iddo ar y ffordd yn ôl. Yn naturiol, mae gweld y tŷ'n dod ag atgofion braf, ac wrth sefyll o'i flaen y dydd o'r blaen rhwydd iawn oedd camu'n ôl dros dri degawd a dychmygu cerdded eto'r hen lwybrau. Hen lwybrau a gychwynnai ac a orffennai am gyfnod â'r strach o halio bygi dwbl dros bedair neu pum step o flaen y tŷ!

Hen lwybrau gwahanol y sonnir amdanynt yn Llyfr Jeremeia yn Y Beibl. 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd: "Safwech ar y ffyrdd; edrychwch, ac ymofyn am yr hen lwybrau. Ple bynnag y cewch ffordd dda, rhodiwch ynddi, ac fe gewch le i orffwys." Ond dywedasant, "Ni rodiwn ni ddim ynddi" (6:16-17). Dros ddwy fil a hanner o flynyddoedd yn ddiweddarach, yr un yw galwad Duw i'w bobl ddilyn yr hen lwybrau. Ni olyga hynny ein bod yn aros yn y gorffennol ac yn gwrthod newid nac addasu ond yn byw mewn oes a fu. Pobl yr unfed ganrif ar hugain ydym, a rhaid i bobl Dduw fyw a dwyn eu tystiolaeth i Grist yn wyneb y cyfleoedd a'r heriau y mae heddiw'n eu cynnig. Ond beth bynnag sy'n newydd ac yn wahanol i'r hyn a fu yn ein bywydau ein hunain ac ym mywyd ein heglwysy mae yna hen lwybrau na fedrwn gefnu arnynt. Ar yr hen lwybrau hynny mae pethau a gredwn am Dduw ac am y ffordd ato trwy Iesu Grist. Mae yna hefyd egwyddorion a gorchmynion ac esiampl sy'n parhau yn ganllaw diogel ar gyfer ein bywyd o wasanaeth i Grist ac i'n gilydd. Chwiliwn yr ysgrifurau, chwiliwn am yr hen lwybrau ac yn wahanol i'r bobl y daeth Jeremeia â neges Duw atynt, dilynwn hwy.

Bethesda

Mary Jones,
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Llifton a Donna, Ffordd Coetmor ar enedigaeth merch fach Lili Haf, ac i Hefin Jones ar ddod yn daid, a Jessie Jones yn hen nain.

Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd arbennig hapus iawn i Juliet Davies a ddathlodd ei phen-blwydd yn 50 ym mis Chwefror.

Croeso

Mae Huw Harvey a Lois Evans wedi ymgartrefu yng Nglanogwen. Croeso mawr iddynt i'r ardal.

Ysbyty

Cofon cynnes a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar i dderbyn triniaeth. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais: Mr. Phillip Williams, Allt Penybryn a Mrs. Sarah Roberts, Lôn Newydd Coetmor.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Neville ac Angharad Hughes, Pant yn eu profedigaeth o golli ffrind agos ac annwyl, sef Augusta Williams, priod y diweddar Ron Williams, Hogia Llandegai.

50fed Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Kevin Thomas, Abercaseg ar ddathlu pen-blwydd arbennig, sef yr 50fed, ym mis Chwefror. Gobeithio i ti gael diwrnod wrth dy fodd!

Marwolaethau

Emyr Roberts

Yn ei gartref, 11 Ffordd Ffrydlas, ar 1 Chwefror, bu farw Mr. Emyr Roberts yn 79 mlwydd oed. Priod annwyl Mrs Margaret Roberts, tad a thad-yng-nghyfraith i Diane a Glyn, a Nigel a Sioned. Taid

hoffus i Siân, Carwyn, Ceri, Gwion, Gethin, Gwenno ac Iestyn, a hen daid i Noah.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlogsgfa Bangor ddydd Gwener, 12 Chwefror, gyda'r Parchedig Ddr. Hugh John Hughes yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Phillip Lloyd Parry

Yn sydyn, yn ei gartref yn Ffordd Carneddi ar 5 Chwefror, bu farw Phillip Lloyd Parry yn 60 mlwydd oed. Mab annwyl y diweddar Mr a Mrs Emrys Lloyd Parry, Ffordd Ffrydlas, a brawd a brawd-yng-nghyfraith hoffus i Bethan a Gary. Ewythr i Megan, Gwen, Mari a Leri a hen ewythr i Bobi Emrys ac Elis Lloyd. Bu ei angladd yn Amlogsgfa Bangor ddydd Mercher, 17 Chwefror. Bu Philip yn gweithio gyda'r GPO ac wedyn BT ers iddo adael yr ysgol ac yn hoff iawn o chwarae golf. Bydd nifer o'i ffrindiau yn gweld ei golli yn fawr. Anfonwn ein cydymdeimlad at Bethan a'r teulu i gyd.

Andrew John Robertson

Yn Ysbyty Gwynedd ar 15 Chwefror bu farw Andrew John Robertson, Rhos Penrhyn yn 56 mlwydd oed. Mab y diweddar Mr a Mrs Jock a Muriel Robertson, ac 'roedd yn frawd a brawd-yng-nghyfraith ac ewythr. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlogsgfa Bangor ddydd Mercher, 24 Chwefror, gyda'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Diolch

Dymuna Margaret, Diane a Nigel a theulu'r diweddar Emyr Roberts, 11 Ffordd Ffrydlas ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn eu colled enfawr pan gollwyd gŵr, tad, taid a hen daid annwyl. Diolch am y rhoddion ariannol er cof amdano a fydd yn cael eu cyflwyno er budd Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru. Diolch hefyd i'r Parch. Huw John Hughes am ei wasanaeth urddasol yn yr amlogsgfa ac i Gareth Williams am ei drefniadau trylwyr.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Yr Eglwys Unedig

Cofion

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sydd mewn cartref gofal, yn gaeth i'w cartrefi, a'r rhai sydd yn unig. Mae ein diolch yn ddiffuant i Mrs Nerys Griffiths, sydd yn ymgeisydd am y weinidogaeth, ac yn gweithio gyda ni yn yr Eglwys Unedig, am ei gofal clodwiw dros ein haelodau mwyaf bregus, ac ar yr un pryd fe'i llongyfarchwn hi ar ei llwyddiant mewn arholiadau yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r aelodau sydd yn cadw cysylltiad yn gyson â'r rhai mwyaf bregus yn ein mysg.

Difrod

Unwaith eto, daeth tywydd mawr yn ystod mis Chwefror, gan achosi peth difrod i'r adeiladau, ac 'rydym yn hynod o ddiolchgar i'r aelodau sydd yn cadw llygad ar y capel, fel bod gwaith trwsio yn digwydd yn brydlon.

Tymor Newydd

Gyda'r gwanwyn ar droed, mae'n braf gallu edrych ymlaen at weld gardd y capel yn ffynnu unwaith eto, ac yn dod â lliwiau o'r newydd wedi'r hirlwm.

O gofio ein bod yn nesu at ŵyl y Pasg, dyma emyn o waith Vernon Jones sydd yn cyplysu'r gwanwyn ag aberth Iesu Grist drosom:

O Arglwydd y gwanwyn, anadla drwy'r tir, A deffra ein daear o gwsog sydd mor hir, Boed gwres anorchfygol dy gariad dy hun Yn ffrwydro gorfoledd yng nghalon pob un.

Dy nerth ar ein daear, O Arglwydd y wyrth, Ddeisyfwn i dreiglo y meini o'r pyrth, Dy nerth i gyfannu rhwygiadau yr oes, Y nerth a goncwerodd waradwydd y groes.

Llewyrcha, O Arglwydd, oleuni dy ffydd I symud ffôl rwystrau ein bywyd bob dydd, I aileni'r cariad a buraist drwy boen, A'i wrid yn disgleirio tangnefedd yr Oen.

O ffynnon dy glwyfau daioni a dardd Mor fywiol ei ffrydiau â'r chwys yn yr ardd; Dros grastir ein bywyd, O Arglwydd yr had, Lliferied dy wanwyn yn ddwyfol fywhad.

Gwasanaethau

Er nad ydym ar hyn o bryd yn gallu cynnal gwasanaethau yn y capel, mae'r drysau yn 'agored' bob bore Sul am 10 o'r gloch drwy gyfrwng y ffôn. Dyma'r rhai fydd yn ein harwain yn y gwasanaethau yn ystod yr wythnosau nesaf:

Mawrth 21: Mr Gwilym Williams

Mawrth 28: Mrs Ceri Dart

Ebrill 4: Mr Eryl Wyn Davies

Ebrill 11: Y Parchedig Cledwyn Williams

Ebrill 18: Y Parchedig Gerallt Lloyd Evans

Ebrill 25: Mr Owain Davies

Croeso cynnes i chwi i'r oedfaon hyn - dyma'r rhifau perthnasol ar gyfer ymuno â ni:

Deialu: **03330 164 757**. Ymhen ychydig eiliadau bydd llais yn gofyn i chwi ddeialu rhif ystafell: **110 445 70#**

ac yna deialu rhif pin: **4414#**

A dyna ni – byddwch wedi ymuno! Cofiwch roi'r # i mewn!

Eglwys Crist, Glanogwen

Cyfraniadau

Diolch yn fawr i bawb sydd yn dal ati i gyfrannu at gostau cynnal a chadw'r eglwys. Mae pob cyfraniad yn help; rhowch ganiad os am inni basio unrhyw arian i'r Trysorydd. Cofiwch hefyd bod cardiau cyfarch ar gael bob amser am £1 yr un er budd yr eglwys, dim ond cysylltu â Barbara.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd wedi dioddef salwch, unigedd neu brofedigaeth dros y cyfnod trist hwn, a gobeithiwn yn arw fod 'haul ar y gorwel' erbyn hyn.

Manylion Cyswllt

Tra bo eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am benodi ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

Covid-19

CADWCH YN DDIOGEL

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael brechiad. Mae'n hanfodol ein bod ni'n manteisio ar y rhaglen frechu. Cofiwch fod rhaid cadw'r rheolau ar ôl cael pigiad:

- cadw pellter o 2 fetr
- gwisgo mwgwd
- golchi dwylo/defnyddio diheintydd

Dilynwch gyfarwyddiadau diweddaraf Llywodraeth Cymru ynglŷn â theithio a chyfarfod pobl o aelwydydd eraill.

Pa mor dda ydi gwasanaethau'r cyngor sir? Cyfle i fynegi barn

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad i weld pa mor hygyrch a theg yw ei wasanaethau er mwyn eu gwella i'r dyfodol. Fel rhan o'r ymgynghoriad mae'r Cyngor yn gofyn i bobl lenwi holiadur i rannu eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau a cheisio am swyddi efo Cyngor Gwynedd.

Bydd canfyddiadau'r ymarferiad yn sail ar gyfer sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu haddasu a'u datblygu i'r dyfodol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ateb gofynion y bobl sy'n eu defnyddio.

Meddai'r Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol y Cyngor,

"Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig nifer fawr o wasanaethau i bobl Gwynedd – o wasanaethau sy'n gyfarwydd i bawb fel casglu gwastraff ac ailgylchu, i wasanaethau arbenigol sydd berthnasol i grwpiau penodol o bobl fel y gwasanaeth digartrefedd.

"Beth bynnag ydi'r gwasanaeth, rhaid i ni osgoi sefyllfa lle nad ydi rhai pobl yn gwneud defnydd ohonynt oherwydd rhwystrau.

"Yn anffodus, mae nifer fawr o bethau yn gallu achosi rhwystr. Er enghraifft, os ydi gwasanaeth wedi ei leoli mewn lle sy'n anodd cael ato, lle nad ydi'r adeilad yn gyfleus ar gyfer y safleoedd bws, neu nad ydi'r unigolyn ddim yn gallu gyrru.

"Mae rhwystrau hefyd yn gallu bod yn llai amlwg, fel llythyrau yn anodd i'w deall neu bod rhywun yn teimlo'n anghyfforddus gofyn am help.

"Oherwydd yr amseroedd heriol rydan ni'n byw trwyddyn nhw, gyda mwy o bobl nag erioed yn gofyn am wasanaethau gan Gyngor

Gwynedd, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn gwneud yn siŵr eu bod yn hygyrch ac nad ydym yn cam-wahaniaethu."

Yn ogystal, Cyngor Gwynedd ydi un o gyflogwyr mwyaf y sir, gydag oddeutu 7,000 yn gweithio i'r sefydliad at ei gilydd. Mae'r Cyngor eisiau gwneud yn siŵr fod y gweithlu yn adlewyrchu'r boblogaeth leol ac nad oes rhwystrau yn atal amrediad o bobl o bob cefndir rhag dewis ceisio am swyddi.

Ychwanegodd y Cynghorydd Jeffreys, "Rydan ni eisiau clywed am brofiadau pobl leol. Felly, rydw i'n erfyn ar bobl i gymryd ychydig funudau i lenwi'r holiadur er mwyn ein helpu i wella'n gwasanaethau ar gyfer y gymuned gyfan."

Mae'r holiadur ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/gwasanaethauteg

Mae fersiynau papur, print mawr, Braille ac ieithoedd eraill o'r holiadur ar gael drwy gysylltu â cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru neu 01766 771000 i drafod eich anghenion.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Eirlys a Dei Edwards, Sŵn y Coed o'r pentref. Collodd Eirlys ei brawd, Alun Cooke, tra oedd yn aros gyda ffrind dramor.

Arosfa Bws

Diolch i Gyngor Llandygái am drefnu i'r pentref gael arhosfa bws ger y fynedfa i'r pentref. Mae wedi ei wneud gan Gwmni Coed Arfon yn defnyddio coed lleol.

Eglwys Sant Tegai, Llandygái



Gwaeledd

Cofw'n y mis hwn eto am ein cyfeillion sy'n wael yn eu cartrefi: Joy Radcliffe, Pat Jones a Liz Jones. Maent yn gyson yn ein gweddïau.

Gwaith atgyweiro'r Eglwys

Fel mae'r gwanwyn yn blaguro'n araf felly mae adeilad yr Eglwys yn cymryd ei newydd wedd. Mae'r gweithwyr wedi bod yn brysur yn ail-bwyntio'r waliau tu allan er mwyn lleihau'r lleithder ac adfer y difrod blaenorol. Mae peiriannau arbennig yn helpu i sychu'r adeilad. Bydd y gwaith yn parhau am rai misoedd eto.



Casgliad y Pasg 2021

Oherwydd y gwaith atgyweirio uchod nid yw drysau'r eglwys ar agor, ond mae'r addoli rhithiol a pherthynas glòs y gynulleidfa yn parhau! Derbynnir yn ddiolchgar iawn unrhyw gyfraniad ariannol y Pasg gan swyddogion yr eglwys cyn Ebrill 17eg 2021, os yn bosibl. Sieciau drwy'r post yn daladwy i "Eglwys Llandegai" neu arian parod mewn amlen gyda'ch enw, eich cyfeiriad llawn a chòd post. Gellir ffonio am fwy o wybodaeth am daliadau uniongyrchol drwy'r banc neu am unrhyw fater arall.

Diolch i bawb yn y gynulleidfa fechan sydd yn cyfrannu yn rheolaidd ac i fudiadau ac unigolion hael eraill yn y gymuned sydd yn cefnogi'r gwaith sylweddol o gynnal a chadw yr eglwys a'r fynwent. Diolch am y gefnogaeth ffyddlon dros gyfnod anodd iawn.

Gellir gyrru cyfraniadau i unrhyw un o'r swyddogion canlynol:
Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)
Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygái, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)
Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygái, Bangor, Gwynedd LL57 4HU

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygái

Yn ystod cyfnod y coronafirws mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clòs drwy e-bost ac yn ymuno bob dydd Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Mae Warden y Ficer yn gyrru deunydd addoli yr esgobaeth yn wythnosol drwy e-bost. Croeso i chi oleuo kannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrddod a dweud gweddi gyda ni.

Diolch i'r Esgob ac i Mary Stallard am yrru'r myfyrdodau wythnosol ar lein i bob eglwys ym Mro Ogwen. Cynhelir gwasanaeth Gosber trwy gyfrwng y Gymraeg ar lein bob nos Sul; gweler gwefan yr Esgobaeth am yr holl ddarpariaeth addoli. Yn dibynnu ar amgylchiadau a rheolau cyfredol Covid, mae posibilrwydd y ceir gwasanaethau'r Pasg mewn ambell eglwys arall yn Nyffryn Ogwen. Bydd angen cysylltu â'r eglwysi unigol i gael y manylion.

Manylion Cyswllt

Tra bo eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am benodiad ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.



**JAMIAU
CARTRA'**

(Amrywiaeth ar gael)

Cysylltwch â gwefan
CADWYN OGWEN

neu

Neville ac Angharad
(ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau

**STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF**

**PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS**

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebst: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Cyfleoedd gwyh i fod yn brentis gyda Chyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu penodi nifer o brentisiaid newydd mewn amrywiaeth o feysydd dros y misoedd nesaf. Daw hyn wedi lansio Cynllun Prentisiaethau'r Cyngor yn 2019, gyda nifer o'r unigolion gafodd gyfle ar y pryd bellach wedi symud ymlaen i swyddi gyda'r Cyngor.

Meddai'r Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar y maes, "Fel Cyngor, rydan ni eisiau sicrhau swyddi da i bobl Gwynedd ac fel un o gyflogwyr mwyaf y sir, mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddatblygu gweithlu o safon i'r dyfodol. Trwy'r cynllun prentisiaethau, rydan ni yn awyddus i gynnig profiad o weithio ochr yn ochr efo swyddogion arbenigol, yn ogystal â sicrhau hyfforddiant, datblygu sgiliau a chymwysterau wrth weithio.

"Mae hi mor wych gweld fod nifer o'r unigolion gafodd gyfle prentisiaeth gyda Chyngor Gwynedd wedi gallu datblygu a sicrhau swydd gyda'r awdurdod. Does dim dwywaith fod y cynllun prentisiaethau yn cynnig sylfaen wych i bobl ddatblygu gyrfa, a hynny drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, wrth gwrs. Mae yna gyfleoedd ar gael mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys yn y maes gofal oedolion, anabledau dysgu, gofal plant, peirianeg sifil, busnes a gweinyddiaeth a thechnoleg gwybodaeth."

Gall unrhyw un wneud cais am brentisiaeth gyda'r Cyngor - mae cyfleoedd ar agor i unrhyw un sydd dros 16 oed, sy'n byw yng Nghymru a heb fod mewn addysg lawn amser. Mae prentisiaeth gyda Chyngor Gwynedd yn cynnig dechrau ar lwybr gyrfa, trwy gynnig cyfle i ddysgu wrth weithio, magu profiad proffesiynol yn ogystal â chymhwyster perthnasol - a hyn oll drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers 2019, mae Mared Wyn Owen wedi bod yn dilyn prentisiaeth fel Prentis Maes Gofal Oedolion. Mae hi wedi cael budd sylweddol o'r cynllun ac yn annog unrhyw un sydd â diddordeb i fynd amdani. Meddai Mared, "Ydach chi'n meddwl gwneud prentisiaeth yn y maes gofal oedolion? Ewch amdani, mae'n braf darhod pob shifft yn gwybod eich bod chi wedi gwneud gwahaniaeth i ddiwrnod unigolyn."

Mae Ceris Alaw Jones wedi bod yn brentis Peirianeg Sifil (Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gyda'r Cyngor. "Mae prentisiaeth yn gyfle gwyh i berson ifanc," meddai Ceris, "Dw i wedi cael profiadau amrywiol iawn ers cychwyn ar y cynllun ac wir wedi mwynhau. Mae'n grêt cael y profiad, cymhwyster, ennill cyflog a chael cymorth fy nghydweithwyr i gyd ar unwaith."

Bydd manylion am yr holl brentisiaethau sydd ar gael gyda Chyngor Gwynedd dros yr wythnosau nesaf yn cael eu cyhoeddi ar www.talencyngorgwynedd.com, a bydd y cyfleoedd hefyd yn cael eu hyrwyddo ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor.

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Casgliad arall o bytiau o ddyddiaduron Dafydd Ifans, Glanrafon, gydag ychwanegiadau atyn nhw a allai fod o ddi-ddordeb.

Hydref 28, 1948: Wilfred Pickles yn y Neuadd Gyhoeddus.

Cofiaf ewythr a modryb i mi yn sôn eu bod wedi bod yn y Neuadd y noson honno yn mwynhau rhaglen radio boblogaidd o'r enw 'Have a Go' a gyflwynwyd mewn neuaddau ledled gwledydd Prydain yr adeg honno. Wilfred Pickles (1904-1978) a'i wraig, Mabel, oedd yn cydgyflwyno'r rhaglen, a glywyd ar y radio am y tro cyntaf yn 1946 ac a ddarlledwyd yn gyson am oddeutu ugain mlynedd wedi hynny. Byddent yn cael pobl leol (wedi eu dewis ymlaen llaw, mae'n siŵr!) i gymryd rhan drwy sgwrsio efo nhw am rai munudau ac yna eu gwahodd i ateb ambell gwestiwn er mwyn ceisio ennill gwobr fach o arian. Pan fyddai rhywun yn ennill, hoff orchymyn y cyflwynydd i ddyn y pwrs fyddai: 'Give him/her the money, Barney'.

Roedd f'ewythr wedi cadw cardyn, maint cardyn post, yr oedd wedi ei gael (neu ei brynu, efallai) ar y noson efo llun Wilfred Pickles ar y tu blaen. Ar ei gefn, roedd rhai o'r artistiaid yn y rhaglen wedi

rhoi eu llofnodion. Er i mi gael y cardyn hwnnw gan f'ewythr ymhen blynedd wedyn, ni allaf yn fy myw gael hyd iddo ar hyn o bryd! Sut bynnag, dw i'n cofio dau o'r llofnodion oedd arno sef un Wilfred Pickles ei hun ac yna un Violet Carson - cofr amdani hi, o'r 1960au ymlaen am flynyddoedd, yn cymryd rhan Ena Sharples yn 'Coronation Street'. Bydd rhai ohonoch hefyd yn debygol o gofio mai ei chymar hi yn y Rover's Return oedd Martha Longhurst, rhan a chwaraewyd gan Lynne Carol.

Ys gwn i a oes unrhyw un o ddarlennwyr *Llais Ogwan* yn gwybod pwy o Ddyffryn Ogwen a gymerodd ran yn 'Have a Go' yn y Neuadd - dros saith deg o flynyddoedd yn ôl bellach! Neu a oes gan unrhyw un gardyn â llun Wilfred Pickles ar ei du blaen (a gorau oll, efo'r llofnodion ar ei gefn). Gadewch i mi wybod.

A chyn cloi, a oes gan unrhyw un atgofon aballu am Al Roberts a Dorothy a fu'n perfformio ar lwyfan y Neuadd Gyhoeddus tua chanol y ganrif ddiwethaf? Clywais mai prif atyniad y sioe oedd Al Roberts yn 'siarad' efo 'Taid', hynny yw, yn taflu'i lais i ddol a wnaethpwyd i edrych fel hen ŵr.

I'w barhau



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddownen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

[f @CynghorwyrDyffrynOgwen](https://www.facebook.com/CynghorwyrDyffrynOgwen)

[t @PlaidCymruOgwen](https://twitter.com/PlaidCymruOgwen)

Dwy Gyfrol o Ddiddordeb Lleol – ar gael drwy Siop Ogwen

Castell Siwgr – nofel gan Angharad Tomos

Mae nofel ddiweddaraf Angharad Tomos yn adrodd profiadau dwy ferch ar ddau gyfandir y mae eu tynged yn nwylo Arglwyddiaeth Penrhyn – Dorcas, morwyn yng Nghastell Penrhyn yn Llandygái, ac Eboni, caethferch yn un o blangifeydd siwgr Stad y Penrhyn yn Jamaica. Dyma nofel sy'n ceisio mynd i'r afael â'r cysylltiad sydd gan Gymru yn y bennod erchyll hon yn hanes dynolryw.

Meddai Angharad am yr hyn a ysgogodd y nofel, "Y symbyliad i sgwennu'r gwaith hwn oedd arddangosfa gofiadwy Manon Steffan Ros ar gaethwasiaeth yng Nghastell Penrhyn yn 2018. Gwnaeth argraff ddofn arnaf, a throis ati i sgwennu am yr Arglwydd Penrhyn – cymeriad nad oedd yn ennyn fy mrawdfrwydded o gwbl ... Yr unig beth sy'n gyffredin i'r ddwy ferch yw awch yr Arglwydd Penrhyn am elw, ac mae hyn yn esgor ar ganlyniadau trychinebus i'r ddwy. Nid yw'r Arglwydd Penrhyn yn ymddangos yn y nofel, ond mae ei gysgod yn drwm ar fywydau'r ddwy.

"Wrth sgwennu'r nofel hon yn 2020, digwyddodd llofruddiaeth erchyll George Floyd ar Fai 25, ac esgorodd hyn ar brotestiadau ledled y byd. Mae'r ymgyrch Black Lives Matter wedi peri i



bawb ddwys ystyried oblygiadau'r farchnad gaethwasiaeth, a sut mae ei gwenwyn yn dal i effeithio arnom i gyd heddiw."

Mae hi'n nofel ysgytiol, a thrwy ddychmygu bywydau'r ddwy ferch mae Angharad Tomos fel awdures brofiadol yn defnyddio'i dawn i ddeffro ein synhwyrau a'n cymell i ymdrechu i ymuniaethu a chydymdeimlo â hwy yn eu cyfyngderau. Mae'n llwyddo i gyfleu'n effeithiol deimladau a meddyliau dwys y ddwy ferch yn y gwahanol sefyllfaoedd enbyd y maent yn cael eu gorfodi i'w hwynebu.

Y Castell Siwgr, Angharad Tomos, Carreg Gwalch, 2020


Deffro i Fore Gwahanol – hunangofiant Glyn Tomos

Dyma gyfrol sy'n rhoi inni nid yn unig bortread o unigolyn egwyddorol a gweithgar sydd wedi ymroi i gynnal y bywyd cymdeithasol Cymraeg, ond hefyd ddarlun o gymuned chwaryddol mewn cyfnod trawsnewidiol yn ei hanes. Adroddir y cyfan mewn arddull rwydd, naturiol a hynod ddarllenadwy.

Magwyd Glyn Tomos yn Ninorwig yn y 1950au a'r 1960au pan oedd Chwarel Dinorwig yn dal i gynnal nifer sylweddol o deuluoedd y fro, a'r gweithgarwch cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol yn parhau'n fywiog. Down i wybod am ei deulu a'i fagwraeth, am y cysylltiadau teuluol a'u cefndir, yn ogystal â pheth o hanes y fro.

Mae'r gyfrol hefyd yn dangos sut y daeth tro ar fyd i'w gymdogaeth ac i'r cymunedau cyffiniol pan gaewyd y chwarel yn 1969, a sut yr aethpwyd ati i geisio gwarchod a chryfhau'r gymdeithas mewn cyfnod anodd iawn.

Cawn weld sut y daeth Glyn Tomos yn ymgyrchydd iaith blaenllaw – gan gynnwys ei aweiniad yn sefydlu Undeb



Myfyrwyr Cymraeg Bangor a'r frwydr i ennill statws i'r iaith yn y brifysgol; ei ran allweddol yn yr ymgyrch i warchod safle hen chwarel Glynrhonwy rhag cael ei droi'r canolfan dwristiaeth enfawr; a'i gyfraniad brwdfrydig ac effeithiol fel cadeirydd Mudiad Adfer. Codir y clawr hefyd ar ei brofiadau difyr fel golygydd y cylchgrawn pop enwog a dylanwadol *Sgrech* ymysg cyhoeddiadau eraill, a chawn hanes sefydlu *Papur Dre*, papur bro Caernarfon.

Deffro i Fore Gwahanol, Glyn Tomos, Carreg Gwalch, 2020.



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Uwchraddio Canolfan Ailgylchu Bangor

Mae gwaith ar gychwyn i gyflwyno gwelliannau sylweddol gwerth £225,000 i ganolfan ailgylchu poblogaidd Cyngor Gwynedd yn Llandygái.

Bydd y gwelliannau yn golygu ymestyn maint y ganolfan ar Stad Ddiwydiannol Llandygái er mwyn cynnig gwell cyfleon ailgylchu i drigolion ynghyd â datblygu siop o'r newydd ar gyfer ail-ddefnyddio ac uwchgyrchu deunyddiau ar y safle. Mae'r gwaith yn cael ei ariannu trwy grant Economi Gylchol Llywodraeth Cymru

Meddai'r Cynghorydd Catrin Wager, Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd, "Mae'r ganolfan ailgylchu ar Stad Llandygái yn hynod boblogaidd ac mae'r staff yno yn cynnig gwasanaeth croesawgar i drigolion Bangor a Dyffryn Ogwen sy'n gwneud defnydd o'r safle.

"Yn wir, ers i'r ganolfan ail-agor dan drefniadau apwyntiadau ar ôl y clo mawr cyntaf, mae ymhell dros 15,000 o bobl wedi gwneud defnydd o'r ganolfan ailgylchu. Mae hi



Y Ganolfan Ailgylchu, Llandygái

felly yn bwysig iawn ein bod yn sicrhau bod y ganolfan yn hollol addas ac yn ddiogel i staff a defnyddwyr.

"Fel rhan o welliannau gwerth £225,000 i ganolfan ailgylchu Bangor, byddwn yn cyflwyno siop uwchgyrchu ar y safle pan fydd yn ail-agor a fydd yn cynnig cyfleoedd i ni gydweithio gyda phartneriaid i dorri lawr ar faint o ddeunyddiau sy'n cael eu lluchio am byth. Bydd gwelliannau hefyd yn cynnwys mynedfa ac allanfa newydd bwrpasol ar gyfer y ganolfan.

"Mae canolfan ailgylchu

Bangor wedi bod ar agor am ryw bymtheng mlynedd bellach, ac felly mae'n synhwyrol ein bod yn cyflwyno gwelliannau i sicrhau ei fod yn cyfarch anghenion trigolion heddiw ac yn addas ar gyfer ein gweledigaeth i fod yn ail-ddefnyddio llawer mwy o ddeunyddiau i'r dyfodol, fel rhan o'r siwrne i fod yn sir ddi-wastraff.

"Er mwyn cyflawni'r gwelliannau yma, bydd angen cau y ganolfan dros dro o 8 Mawrth tra bod y gwaith yma yn cael ei gwblhau. Rydan ni'n

gwerthfawrogi y bydd hyn yn cael effaith dros dro ar rai o breswylwyr yr ardal, a bydd trefniadau i ymestyn oriau agor canolfan Caernarfon yn ystod y cyfnod yma. Rydan ni'n grediniol y bydd canolfan Bangor ar ei newydd wedd yn cynnig gwell adnodd i bawb."

Mae'r cyngor sir yn disgwyl y bydd modd ail-agor canolfan ailgylchu Bangor yn rhannol o ganol mis Mai ymlaen, gyda'r safle yn ailagor yn llawn erbyn canol Mehefin. Yn ystod y cyfnod pan fydd y gwelliannau yn cael eu cynnal ym Mangor, mae'r Cyngor wedi trefnu y bydd Canolfan Ailgylchu Caernarfon ar stâd ddiwydiannol Cibyn ar agor am oriau estynedig, gydag amseroedd ar gael i'w harchebu ymlaen llaw rhwng 8am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.

Mae angen trefnu apwyntiad o flaen llaw i fynychu canolfannau ailgylchu'r Cyngor - gellir gwneud hynny ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/ailgylchu neu drwy lawrlwytho 'apGwynedd' i'ch ffôn glyfar neu ddyfais llechen.

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni (01248) 723106 Porthaethwy (01248) 719517 Benllech (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000



SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau
Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL

Enwau Dyffryn Ogwen

Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu.



Bowls

Mae'r enw ger y fynedfa heddiw yn adlewyrchu'r ynganiad lleol, sy'n cyfateb i'r Saesneg am luosog 'pêl', neu'r gêm hynod o boblogaidd a chwaraeir ar lawntiau hyd a lled y wlad, gan gynnwys Bethesda. Anodd gweld fod gan yr un o'r ystyron hynny fawr i'w wneud gyda'r tyddyn 10 acer yn Llanllechid. Yn 1768 yr enw oedd 'Powls', sy'n dod â ni ychydig yn nes at yr ystyr gwreiddiol.

Yr hyn y gallwn ei ddweud i sicrwydd am yr enw yw nad yw yn air cynhenid Cymraeg, gan

nad yw'r cyfuniad LS ar ddiwedd gair yn bod mewn unrhyw air o'r iaith. Yr unig air mewn geiriadur sy'n gorffen gyda'r cyfuniad hwnnw yw 'ffals', ac mae hwnnw'n fenthyciad uniongyrchol o'r Saesneg. Mae tri chyfuniad cyffredin LS ar derfyn gair yn y Saesneg, sef luosog gair sy'n diwedu efo L / LL (e.e. *mills*, *frills*, ac ati), trydydd person unigol berf (e.e. *he fills*, *she calls*) a rhagenw meddiannol (e.e. *the mill's owner*, *the will's writer*).

Gallwn ddiystyru'r ail mewn enw lle, felly gallai Powls ddod o un o'r ddau arall.

Y cynnig sydd wedi'i wneud yw fod enw Powls wedi dod o'r

Saesneg St Paul's, sef yr eglwys enwog yn Llundain. Yn ôl y sôn fe adeiladwyd yr eglwys wreiddiol ddechrau'r 7fed ganrif, a hi, trwy'r Canol Oesoedd, oedd canolbwynt y ddinas. Fe'i difrodwyd gan Dân Mawr Llundain yn 1666, a chynlluniwyd, ac adeiladwyd, yr eglwys gadeiriol bresennol hardd gan Christopher Wren yn negawdau olaf y ganrif honno. Yr awgrym ydyw fod y daliad Bowls, wedi ei enwi, neu, efallai, ei lasenwi, yn lleol yn St Pauls. Gallai hyn fod yn rhan o'r arfer o enwi llefydd ar ôl llefydd pell, megis Boston House ym Methesda, California ar Ynys Môn, neu beth am America yn enw ar

dŷ ym Mrynsiencyn? Ar y llaw arall, ac yn fwy tebyg, gallai fod yn perthyn i'r nifer o enwau difriol a roddid ar dai, enwau megis Nyth Cacwn, neu'r anfarwol City Dulas am ddyrnaid o dai ym Môn. Efallai fod rhyw breswlydd un tro'n meddwl fod ei gartref yn fwy crand nag ydoedd, a bod ei gymdogion wedi dweud ei fod yn meddwl ei fod yn byw yn eglwys Sant Powls. Efallai, hefyd, ei bod yn arwyddocaol fod Bowls o fewn taflriad carreg i fferm Plas Uchaf (am 'plas' gweler Plas Hwfa), ac mai ymdrech fwriadol gan ryw denant, rywdro, i gael enw i gystadlu sydd yn Bowls. Pwy a wŷr?

Cyfrifiad 2021 – bydd pawb yn cael budd ohono

Bydd gofyn i gartrefi ar draws Gwynedd gymryd rhan yng Nghyfrifiad 2021 y gwanwyn hwn.

Arolwg a gaiff ei gynnal unwaith bob degawd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r cyfrifiad ac mae'n rhoi'r amcangyfrif mwyaf cywir i ni o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi cael ei gynnal bob 10 mlynedd ers 1801, ac eithrio 1941.

Mae deall anghenion y boblogaeth yn helpu pawb, o'r llywodraeth ganolog i sefydliadau fel cynghorau ac awdurdodau iechyd, i gynllunio ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru a Lloegr. Mae canlyniadau'r cyfrifiad yn llywio ble y caiff biliynau o bunnoedd o gyllid cyhoeddus ei wario ar wasanaethau fel trafndiaeth, addysg ac iechyd – ar lwybrau beicio, ysgolion a deintyddfydd – neu, yn achos Gwynedd, yn ariannu gwasanaethau er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd.

Mae Celfyddydau Cymunedol Gwynedd wedi defnyddio data o gyfrifiadau blaenorol er mwyn helpu i nodi ardaloedd yng Ngwynedd sy'n debygol o gael cyfran uchel o bobl unig ar

gyfer y prosiectau 'Atgofion ar Gân' a 'Sgwrs a Chân'.

Mae cymunedau Bethesda, Tremadog, Pwllheli, Deiniolen, Gellilydan, Trawsfynydd a'r Bala wedi cael budd o ddigwyddiadau amrywiol gan gynnwys, er enghraifft, plant ysgol yn ymweld â chartrefi gofal i ddiddanu'r preswylwyr, cyfarfodydd grŵp rheolaidd yn y gymuned i sgwrsio a chanu, gan eu helpu i deimlo'n llai unig ac yn rhan o'u cymuned.

Cyfrifiad 2021 fydd yr un cyntaf i gael ei gynnal ar lein yn bennaf. Bydd cartrefi yn cael llythyr â chod mynediad unigryw a fydd yn eu galluogi i lenwi'r holiadur ar eu cyfrifiaduron, eu ffonau neu eu llechi.

Meddai Iain Bell, y dirprwy ystadegydd gwladol yn Swyddfa Ystadegau Gwladol, "Mae'r cyfrifiad yn cynnig ciplun unigryw o'n cymunedau," "Mae o fudd i bawb. Yn seiliedig ar yr wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi, bydd yn sicrhau bod miliynau o bunnoedd yn cael eu buddsoddi mewn gwasanaethau brys, gofal iechyd meddwl, lleoedd mewn ysgolion, gwelyau mewn ysbytai, tai, ffyrdd, gwasanaethau meddygfeydd a gwasanaethau deintyddol.

"Ni ddylai neb gollu'r cyfle. Gall pawb gwblhau'r cyfrifiad ar lein gyda chyfleuster chwilio-wrth-deipio newydd a bydd ffurflenni

papur ar gael i'r rhai fydd eu hangen."

Bydd Diwrnod y Cyfrifiad ar 21 Mawrth, ond bydd cartrefi yn cael llythyrau â chodau ar-lein yn fuan yn esbonio sut y gallant gymryd rhan. Bydd y cyfrifiad yn cynnwys cwestiynau am eich rhyw, eich oedran, eich gwaith, eich iechyd, eich addysg, maint eich cartref a'ch ethnigrwydd. Ac, am y tro cyntaf, bydd cwestiwn yn gofyn i bobl a ydynt wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, yn ogystal â chwestiynau gwirfoddol i'r rhai sy'n

16 oed a throsodd am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd.

Yng Nghymru, bydd cwestiwn penodol i gartrefi am eu sgiliau Cymraeg hefyd. A gall y rhai sy'n dymuno cwblhau'r cyfrifiad yn Gymraeg wneud hynny ar lein ac ar bapur. Mae botymau "Cymraeg" ac "English" er mwyn gallu newid rhwng yr ieithoedd ar unrhyw adeg ar lein, ac ar

bapur gallwch chi ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar yr un ffurflen.

Bydd y canlyniadau ar gael o fewn 12 mis, ond caiff cofnodion personol eu cadw'n ddiogel am 100 mlynedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor am sut i ateb y cwestiynau www.cyfrifiad.gov.uk



Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
☎ 01248 355336

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Dilys Parry, Bryn Tirion. Bu farw ei chefnider, John Griffith o Ddeiniolen, sy'n fwy adnabyddus fel John Fron. Cofion hefyd at ei briod a'r plant ac at ei chwiorydd.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Mrs Margaret Isley a fu'n byw ym Mron y Waun. Yn wreiddiol o Gaergybi, fe dreuliodd hi a'i diweddar wŵr flynyddoedd yn Llundain, ymddeol wedyn a byw yn Nefyn ac yna symud i Rhiwlas. Roedd yn mynychu Capel Peniel, ond wedi gwaeldd fe symudodd yn agosach i gyrion Llundain er mwyn bod yn nes at ei meibion. Anfonwn ein cofion at Thomas a Kevin a theulu Caergybi.

Ymddeoliad

Pob dymuniad da i Margaret, Rhos Penrhyn gynt, ar ei hymddeoliad wedi gweithio am 62 mlynedd

mewn fferyllfa. Cychwynnodd ym Mangor ac ar ôl priodi a byw yn Abererch bu mewn fferyllfa ym Mhwlheli. Mae'n ymwelydd cysom â Rhiwlas ac wedi cefnogi sawl digwyddiad yn y Neuadd. Mwynha dy ymddeoliad!

Pennill addas

Gwelais y pennill yma ar fy ffôn ac mae'n werth ei rhannu. Elin Angharad Davies ydi'r awdur, ac mae'n llawn cynghorion doeth inni i gyd.

Cymer Bwyll

Cymer bwyll cyn dechrau barnu,
Cymer bwyll rhag it ddifaru,
Cymer bwyll cyn it gyhuddo,
Y mae geiriau'n gallu brifo.
Paid â dwedyd pethau ffôl
Nid oes modd eu tynnu'n ôl.
Meddwl ddwywaith, ffrwyna'th geg,
Dal dy wynt a chyfra i ddeg.

Ar y radio

Na, nid Radio Cymru ond Radio 5 live ac ar Ddiwrnod Cerddoriaeth Cymru roedd Huw Stephens yn westai ar raglen Adrian Chiles

sydd yn dysgu Cymraeg – efallai fod rhai ohonoch yn ei gofio ar y rhaglen laith ar Daith. Wrth ddysgu Cymraeg mae wedi clywed Lleuven yn canu 'Rydwi'n gweld gyda fy llygaid bach i' ac wedi dotio at ei llais. Yn ystod y rhaglen, cysylltwyd â Lleuven ac roedd yn sôn am ei magwraeth yn Rhiwlas. Yn sicr, dyma'r tro cyntaf i Rhiwlas gael sylw ar Radio 5 live!

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Nia a Duncan, 108 Cae Glas ar enedigaeth mab bach, Harri, a brawd i Jac. Fe gafodd ei eni gartref – peth prin y dyddiau yma. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Brysiwch wella

Anfonwn ein cofion at John Jones, Bro Rhiwen sydd wedi'i daro'n wael ac ar y funud mae yn Ysbyty Glan Clwyd ac yn disgwyl cael ei symud i Ysbyty Broadgreen, Lerpwl. Pob dymuniad da iddo.

Cofid 19

Mae'r brechlyn yn fendith, ond rhaid i ni fod yn wyladurus o hyd a chadw at y rheolau. Cymerwch ofal.

Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr,
Cais am statws Safle Treftadaeth y Byd i ardaloedd chwarelyddol Gwynedd – ble mae'r amodau iaith cadarn a'r rheolaeth gymunedol?



Mae Llywodraeth Llundain wedi cyflwyno cais i UNESCO ddyodi ardaloedd chwarelyddol Gwynedd, sydd, wrth gwrs, yn cynnwys Dyffryn Ogwen, yn Safle Treftadaeth y Byd.

O'r cychwyn, rydym fel mudiad wedi galw ar y cyrff a oedd yn llunio'r cais i gynnwys amodau clir a chadarn i warchod bywyd cymunedol Cymraeg yr ardaloedd dan sylw a sicrhau rheolaeth gymunedol. Hyd yn oed wedi'r ymgynghoriad, ni roddwyd amodau iaith fel rhan o'r cais. Ni chafwyd unrhyw sicrwydd na fyddai'r cynllun o'i weithredu yn niweidio ein hiaith

a'n diwylliant. Nid yw llunwyr y cais wedi dangos parodrwydd i wneud dim mwy na datgan y byddai'r cynllun yn gyfle i 'annog y defnydd o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig mewn busnesau'. Dylai lles a ffyniant y bywyd cymdeithasol Cymraeg fod yn un o amodau hanfodol pob agwedd ar y datblygiadau a fyddai'n deillio o'r cynllun pe bai'n cael ei gymeradwyo gan UNESCO.

Mae twristiaeth wedi troi'r or-dwristiaeth mewn sawl ardal yng Ngwynedd, ac mae astudiaethau academaidd yn dangos hynny. Yn ddiweddar, mae Cyngor Gwynedd wedi dechrau defnyddio'r term 'twristiaeth anghynaliadwy' sef twristiaeth sydd ar y cyfan yn niweidiol i gymuned ac felly'n annerbyniol. Fodd bynnag, mae cyrff fel Croeso Cymru, yr asiantaeth dwristiaeth genedlaethol, a chwmni Twristiaeth Gogledd Cymru, yn gwrthod derbyn bod y fath beth â gor-dwristiaeth, heb sôn am gydnabod bod gor-dwristiaeth yn ymledu drwy Wynedd.

Heb amodau iaith llym a rheolaeth gymunedol gadarn, byddai perygl gwirioneddol i'r cynllun droi ardaloedd cyfan yn amgueddfeydd, yn barciau thema diwydiannol twristaidd, yn gyrchfannau gwyliau parhaol. Yn ôl y tueddiadau

presennol, byddai'n arwain at gynydd mewn ail gartrefi a thai gwyliau tymor-byr a'r mewnlifiad Saesneg. Canlyniad hynny fyddai gwanychu ymhellach yr iaith a'r diwylliant sydd wedi bod yn rhan annatod o'r gymdeithas ers mil a hanner o flynyddoedd. Dyma dreftadaeth gyda'r gyfoethocaf sy'n hanfod ein hunaniaeth a'r bodolaeth fel cenedl.

Un o brif amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau "Cymru gyda diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu". Ni fydd modd sicrhau hynny heb i awdurdodau lleol, a'r Llywodraeth ei hun, weithredu ar frys er mwyn atal edwiniad y cymunedau hynny lle mae'r Gymraeg yn iaith pob dydd. Y mae modd i dwristiaeth ddwyn budd; ond yn amlwg, y mae'r math o dwristiaeth sydd gennym ar hyn o bryd, a'i graddfa, yn gwneud mwy o ddrwg nag o les. Eironi o'r mwyaf fyddai i ymdrech i ofalu am weddillion diwydiant a gyfrannodd gymaint at ffyniant cymunedau Cymraeg gyfrannu, er yn anfwriadol, at eu difodiant.

Yn gywir,

Howard Huws

Cydllynydd Ymgyrch Dwristiaeth
Cylch yr Iaith



Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

Mae pawb yn cwyno o ddiffyg deunydd lleol i'w roi yn y *Llais* y dyddiau hyn. "Does dim byd yn digwydd" yw'r gri gyffredinol, a rhaid cyfaddef nad yw'n bywydau'n gyffrous iawn ar hyn o bryd. Digon yw ceisio byw yn ôl y rheolau a chadw'n iach.

Er hynny, y mis yma mae gennym fwy nac un rheswm i longyfarch a chyd-lawenhau.

Llongyfarchiadau

Wrth ymateb yn gelfydd i un o reolau pwysicaf y Llywodraeth a'r Gwasanaeth Iechyd, cododd Abigail Feaver, 9 oed, o 8 Bro Emrys i'r brig mewn cystadleuaeth ddylunio poster oedd yn agored i holl ysgolion Cymru.

Beirniad y Gystadleuaeth oedd neb llai na Phrif Weinidog Cymru, Mark Drakeford.

Wrth gyhoeddi enw'r enillydd, meddai Mr. Drakeford, "Llongyfarchiadau i Abigail, o Ysgol y Garnedd, ar ennill y gystadleuaeth poster 'Arhoswch Gartref', a diolch i bawb a gymerodd ran, ac sy'n parhau i ddiogelu Cymru".

Rydym ni, yng Nghapel Bethlehem, yn arbennig o falch o Abi gan ei bod wedi mynychu'r Ysgol Sul yn ffyddlon ers yn dair oed.

Llongyfarchiadau iti, Abi, a diolch am ein hatgoffa, un ac oll, y 'Daw eto haul ar fryn'.



Hen Nain a Thaid

Anfonwn longyfarchiadau gwresog i Rita a Brian Thomas, Bryn Celyn, Gatws ar ddod yn hen nain a thaid am yr eildro. Ganwyd geneth fach, Scarlet May, i'w hwyres Holly a'i chymar, Paul, yn ystod mis Chwefror. Rydw i'n siwr bod Damien wedi gwirioni efo'i chwaer fach. Pob bendith arnoch fel teulu.

Cadw'n heini yn ystod Cyfnod y Clo

Pob clod i Andrew Wright, 46 Bro Emrys sy'n dilyn cwrs cymhwys fel Hyfforddwr Personol dros y Rhyngwyd. Er mwyn ennill profiad yn y maes, mae o'n cynnal dosbarthiadau 'Zoom', o ddydd Llun tan ddydd Gwener i'r sawl a fyn gadw'n heini tra mae'r Canolfannau Hamdden ar gau. Am fwy o fanylion, ceir hyd i Andrew ar 'Facebook'.

Gwellhad buan

Mae nifer fawr o'n ffrindiau ym mhentref ac ardal Talybont wedi bod yn cwyno'n ddiweddar. Nid pawb sy'n dymuno gweld ei enw mewn print, felly, am y tro, dymunwn wellhad llwyr a buan i bob un ohonoch. Cofiwch roi gwybod os oes arnoch angen cymorth mewn unrhyw ffordd.

Morus y Gwynt!

Ar nos Lun, Chwefror 22, gafaelodd 'corwynt' yn y biniau ail-gylchu, a chwythu'r cynnwys o Ddolhelig a Chae Gwigin bron cyn belled â Bont Bach. Bu papurau; paced; cardfwrdd a phlastig o bob math yn gorwedd ym môn y cloddiau, yn y gwteri ac ar y pafin am rai dyddiau. Yn yr Oes Cofid sydd ohoni, efallai ein bod yn gyndyn o godi sbwriel, os na wyddom o ble mae o wedi dod. Tybed oes modd cael gafael ar rai o'r ffyn clyfar rheiny, 'Help llaw', fyddai'n ein galluogi ni i hel y sbwriel o'r tu allan i'n tai ni'n hunain, heb afael ynddo efo'n dwylo? Deallwn fod y Cyngorydd Margaret Fearnley wedi gwneud ymholiadau parthed â hynny yn Adran Amgylchedd y Cyngor Sir. Rydw i'n siwr y byddai Julian Johnson yn falch iawn o weld mwy ohonom yn ei helpu i gadw Talybont yn daclus.

Cyfraniad difyr

Ar gyfer rhifyn mis Chwefror o'r *Llais*, cawsom gyfraniad hynod o ddifyr a diddorol gan Dr Einir Young, 51 Bro Emrys. Mae croeso i unrhyw un gyfrannu yn yr un modd os oes ganddoch atgofion am Dalybont erystalwm neu unrhyw beth diddorol am y pentref yr hoffech ei rannu efo'r darllenwyr eraill.

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

I hysbysebu yn
**Llais Ogwan, Neville
Hughes 600853**

Capel Bethlehem

Colli Aelodau

Mrs Mary Augusta Williams

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Augusta Williams yn Ysbyty Gwynedd ar 25 Chwefror, yn 87 mlwydd oed.

Bu'n aelod ffyddlon ym Methlehem am flynyddoedd lawer hyd nes iddi golli ei hiechyd. Serch hynny 'roedd yn gefnogol iawn i holl weithgarwch y capel. Byddwn yn gweld ei cholli!

Cynhaliwyd ei hangladd yn y capel ddydd Gwener, 5 Mawrth, dan arweiniad ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Cafwyd teyrngedau gan ei mab Glyn, ei hwyres Debbie, a Neville Hughes. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Coetmor.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Richard a Glyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Mr Llew Jones

Yn dawel yn ei gartref yn oriau mân bore Gwener, 5 Mawrth, bu farw Mr. Llew Jones yn 95 mlwydd oed.

Colled fawr arall i ni ym Methlehem oherwydd 'roedd Llew yn ffyddlon iawn yn yr oedfaon ac yn mwynhau'r cymdeithasu yng nghyfarfodydd y Bwrlwm bob bythefnos. Mae'n wir i ddweud ei fod ef a'r teulu wedi bod yn gefnogol iawn i'r Achos yma dros y blynyddoedd. Bydd yn gadael bwlch mawr ar ei ôl! Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â'i briod Enfys, ei ddwy ferch, Avril a Meriel, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
**GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068

Hanes Wil Bach

Addaswyd a golygwyd gan Derfel Roberts

Roedd y diweddar Wil Williams (1919 - 2011) - Wil Bach i bobl ardal Bethesda, ond Wil Rhwyd i bobl Caergybi - yn frodor o Ddyffryn Ogwen ac yn gweithio fel dyn signal ar y rheilffordd yn Y Fali, Sir Fôn. Yn y 70au byddwn yn cael galwad ffôn gan Wil o'r bocs signal bron bob nos Sul. Cawn hanesion hen gymeriadau Bethesda i gyd ganddo. Ar lafar roeddwn i'n derbyn yr hanesion hynny ac ni lwyddwyd i gynnwys fawr ddim ohonynt, os o gwbl, yn Llais Ogwan yr adeg honno. Er hynny, roedd gwranddo ar Wil yn traethu am 'yr hen ddyddiau' yn brofiad difyr tu hwnt, a bellach mae'r atgofion ar glawr a chawn eu gweld yma. Diolch i'w nai, George Owen, am gadw a rhannu'r atgofion hyn.

D.R.

Cyfarfod â Gweinidog Enwog

Bûm yn gweithio mewn dwy siop barbwyr cyn ymuno â'r relwê, yn gyntaf yn Siop Tomi Jones yn Windsor House, Bethesda ac yna yn Siop W.T Lewis, Elwy House, Caergybi. Ar ôl cael 'madael â lifrai'r fyddin dwi'n cofio'r amser pan ddechreuais i weithio fel porter neu gludydd ar stesion Caergybi fel ddoe. Un o fy swyddi cyntaf oedd gorfod brwsio'r plattform 'lawr' neu'r 'down platform' fel y'i gelwid. Yn rhyfedd iawn, ar y bore cyntaf hwnnw pwy ddaeth allan o'r cerbyd gyferbyn â fi ond y Parchedig Thomas Arthur Jones,* cyn-weinidog Capel Jerwsalem, Bethesda. Dyma fi'n ei gyfarch, "Bore da Mr Jones," meddwn i.

"Bore da," meddai yntau.

"Mae'n amlwg nad ydach chi'n fy 'nabod i, syr," meddwn innau.

"Ydw i fod i'ch nabod chi?" gofynnodd y gweinidog a golwg braidd yn hurt ar ei wyneb.

"Wel, y fi ydy'r Wil oedd yn arfer torri eich gwallt yn Siop Tomi ym Methesda cyn y rhyfel," meddwn i.

"Wel, Wil bach, be wyt ti'n wneud yn fan hyn?" meddai.

"Trio gwneud fy ffortiwn ar y relwê, Mr Jones," atebais.

Ar ôl cael ymgom felys am y dyddiau difyr a fu yn Nyffryn Ogwen, a chyn iddo ymadael, cydiodd y gweinidog yn dynn yn fy llaw gan ddweud gyda gwên, "Mae 'na gryn wahaniaeth yn seis dy frwsh di heddiw, Wil."

Wrth gwrs, roedd hynny'n berffaith wir gan fod gwahaniaeth mawr rhwng maint brws siafo Siop y Barbwr a brws sgubo plattform yr LMS.

Mi fûm yn dilyn y brws am tua chwe mis ac mi gefais lawer o hwyl wrth wneud y gwaith hwnnw, a dwi'n cofio un digwyddiad doniol pan oedd ciw hir un tro yn aros i fynd drwy'r

Neuadd Dollau ('Customs Hall') yng Ngorsaf Caergybi. Roedd yr hen gymeriad, Tom Morris y fforman, yno'r diwrnod hwnnw ac un ffraeth ei dafod oedd o. Mewn llais uchel, dwedodd, "On'd dydy'r Gwyddelod gythral yma'n dilyn ei gilydd fel defaid Jacob, Wil?" meddai.

Er syndod mawr iddo fo a minnau, daeth llais tenoraidd uchel o blith y dorf, "Na, gyfaill, un o ddefaid Dyffryn Nantlle yn edrych ymlaen at gael blasu porfeydd gwelltlog yr Ynys Werdd ydw i," meddai perchennog y llais. Doedd Tom ddim wedi disgwyl gweld na chlywed Cymro yn y Neuadd Dollau y tro hwnnw.

Wil a Jac 'Karachi'

Ar ôl cyfnod y brwsio daeth cyfnod y siyntio efo Huw Evans a Hywel yn rhan o fy nyletswyddau. Dyna waith oedd â chyfrifoldeb mawr wrtho a hefyd yn un a allai fod yn beryglus. Er gwaethaf hynny roedd o'n waith pleruser ac yn waith y gwneis i ei fwynhau i'r eithaf. Rydw i'n cofio un bore ar ôl bod yn siyntio'n galed, mi es i draw am baned o de i ystafell y porteriaid ar y plattform 'lawr'. Yn ôl yr arfer, roedd yr ystafell yn orlawn gyda phorteriaid y nwyddau a phorteriaid y traffig i gyd yn cael eu paned. Yna, dyma Wil Rhosneigr yn fy nghyfarch gyda gwên fach slei ar ei wyneb ac meddai, "Rwy'ti wedi bod yn yr India do, Wil," "Wel, do," atebais innau, ac ar hynny dyma Jack yr Ynys yn codi oddi ar ei lacer a gofyn, "Yn lle yn yr India Wil?"

"Yn Karachi, Jac," meddwn i.

"Ym mha ran o Karachi felly?" gofynnodd.

"Yn ymyl rhyw erodrom o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf," atebais.

"Wel, yn fanno fues i adeg y Rhyfel Cyntaf boi," meddai Jac, "pan oeddwn i'n sarsiant efo'r Royal Welch - dyna'r amser pan oedd sowldiwr yn sowldiwr, hogia," meddai gyda balchder yn llenwi'i fynwes.

Efallai y byddai o ddiddordeb i bobl wybod mai 'Karachi' oedd yr hen Jac yn fy ngalw i hyd ei fedd a 'Karachi' roeddwn innau yn ei alw yntau. Hen foi iawn oedd Jac yr Ynys!

Ymwelydd o'r India

Ymhen blynnyddoedd wedyn yn y bocs signal yn y Fali roedd cynhebrwng Jac yr Ynys, neu Jac Edwards i roi ei enw iawn iddo, yn mynd dros groesfan y rheilffordd i'w hir gartref ym mynwent Llanfair yn Neubwll. Yn od iawn, gyda mi yn y bocs signal ar y pryd roedd bachgen ifanc o'r India gyda thwrban ar ei ben, sef un o'r rhai oedd yn dod o gwmpas i werthu teis. Dwedais hanes Jac a Karachi wrtho a dyma fo'n dweud, "I too come from Karachi boss, but we don't do it like that there," meddai gan gyfeirio at angladd Jac yr Ynys, "we burn the bodies in Karachi boss."

Mae'n debyg bod yr amlosgfa wedi dod yn gynt i'r India nag i Lanfair yn Neubwll. Rhyfedd o fyd onide?

i'w barhau

*** Y gweinidog a grybwyllir uchod oedd 'Y Diwyd Fugail' sef y gweinidog a gollodd ei swydd oherwydd ei frwydr dros y faciws yn ei gapel ym Methesda yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ysgrifennwyd holl hanes y saga drist honno gan ei ferch, Marion Arthur, yn y gyfrol, Y Diwyd Fugail a Helynt y Faciws (Gwasg y Bwthyn).**

Englynion a luniwyd er cof am Wil Bach, Caergybi

Derbyniwyd yr englynion canlynol a'r cyflwyniad iddynt gan Richard Llwyd Jones, brodor o Landygái sy'n byw ym Methel, Caernarfon.

Deuthum i adnabod Wil yn 20 mlynedd olaf ei fywyd pan fyddwn yn pregethu yn rheolaidd yng Nghapel Hebron, Caergybi. Yn nhŷ Wil ac Eluned byddwn yn cael cinio, te, a sawl sgwrs uwch hen luniau o Ddyffryn Ogwen. Fe ddarlennwyd yr englynion gennyf yn ei angladd yng Nghapel Hebron, ar 23/06/2011.

Fel y mae'r englynion yn awgrymu, fel Wil y Lein roeddwn i yn ei adnabod (Bocs Signal y Fali) nid fel barbwyr.

Richard Llwyd Jones

Er Cof am William Williams

O'i gur gaiff groesi'r gorwel, - gwyliwr lein geilw'r lamp ddiogel;
o'r braw i'r orsaf dawel
yma mud mae Wil a'r Mail.

I'w gyd-ddyn rhoes adduned - o lwyfan
o lafur hyd ludded;
o'r graig naddwyd ynddo'r gred,
cymwynas yw cymuned.

Ers y Creu bu amheuan - yn naddu
ein haddo fel cynion;
hoelion ffydd i Wil yn ffon,
a'r eli drwy'r treialon.

Un dilyw iddo'n dyled, - gŵr ar ras
gŵr Y Rhwyd a'r deyrnged;
yn rhydd fel llencyn y rhed
at y lein, at Eluned.

R.L.I.J.

Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

Yn y rhifynnau cynnar o Lais Ogwan yn ystod y saithdegau, arferai'r diweddar Ernest Roberts ysgrifennu colofn fisol i Lais Ogwan o dan y pennawd 'Cerrig Môn'. Roedd y penodau hynny'n llawn o wybodaeth ddifyr am hanes y dyffryn hwn ac am y digwyddiadau a'r cymeriadau oedd yn rhan o dapestri lliwgar y dyffryn yn y gorffennol.

Brodor o Ddyffryn Ogwen oedd yn byw ym Mangor oedd Ernest Roberts ac roedd ganddo afael ardderchog ar yr iaith Gymraeg a'i mynegiant. Roedd ei swydd fel gweinyddwr yn y Coleg Normal ac fel ysgrifennydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol tan 1971 wedi meithrin ynddo feddwl trefnus oedd yn golygu bod graen a dilyniant i'w golofnau.

Y mis hwn rydyn ni'n dyfynnu o erthygl a ysgrifennodd Ernest Roberts ar gyfer rhifyn Mawrth 1976 yn adrodd hanes y côr yn mynd i Ffair Fawr y Byd yn Chicago yn 1893. Golygwyd ac addaswyd rhannau o'r erthygl.

Mil o ddoleri oedd y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth y corau yn Eisteddfod Ffair Fawr y Byd. Dyma swm anhygoel yn 1893 pan oedd cyfartaledd cyflog gweithiwr cyffredin o dan £1 yr wythnos. Roedd y swm hwn gyfystyr â £200 yn 1976 yn ôl Ernest Roberts, ond yn gwrthbwysu hynny roedd y gost i'r côr o deithio ac aros yn America yn £1,200.

Fe gofta darllenwyr Llais Ogwan i'r côr presennol fynd yn ôl i Chicago union gan mlynedd yn ddiweddarach yn 1993.

Côr Ffair Fawr y Byd

O'r holl gorau a fu ym Methesda, mae'n debyg mai am y côr meibion a aeth i Ffair Fawr y Byd yn Chicago yn 1893 y bu'r mwyaf o sôn amdano a hefyd dyma'r côr y cafodd cymaint o ramant ei wau amdano. 'Mynd am byth' i'r Mericia fyddai pobl yn y cyfnod hwnnw ond y tro hwn dyma griw o ddynion ifanc yr ardal yn trefnu i fynd yno am fis. Cynhaliwyd y Ffair (World Exhibition) i arddangos cynnyrch diwydiannol a dyfeisiadau diweddaraf America. "Y ffair fwyaf mawreddog yn hanes y byd gwareiddiedig," meddai'r *Cenhadwr Americanaidd*, papur Cymry America amdani. Roedd dros dair mil o Gymry yn byw yn Chicago yr adeg honno a hwy a drefnodd i gynnal eisteddfod mewn amffitheatr oedd â lle ynddi i gynulleidfa o saith mil o bobl.

Y darnau prawf i gorau meibion heb fod dros 60 o leisiau oedd 'Cambria's Song of Freedom' a 'Chytgan y Pererinion' gan Dr Joseph Parry ar eiriau David Adams, Gweinidog 'Bethesda'. Mae'r 'Pilgrims', fel y'i gelwir, yn dal yn ddarn poblogaidd o hyd.

Edward Broome, organydd Eglwys y Santes Fair ym Mangor, oedd yr arweinydd gyda Wm. Gray, prif glerc Swyddfa'r Cei, yn drysorydd a threfnydd. Cynorthwywr Wm. Gray oedd



Mr Keith Roberts a'i deulu o Swydd Stafford yn cyflwyno'r cloc a wnaed o lechen yn ôl i aelodau'r côr presennol yn 2011. Dyma'r cloc a roddodd aelodau'r côr a aeth i Chicago yn 1893 i Wm. Gray, taid Mr Roberts, am ei waith fel trefnydd a thrysorydd y daith. Gw. yr hanes gan Ernest Roberts.

David Davies, Goruchwyliwr y Chwarel yn ddiweddarach. Cyfrannodd Arglwydd Penrhyn £300 tuag at dreuliau'r côr a chodwyd y gweddi o'r arian trwy gynnal cyngherddau. Enw swyddogol y côr oedd Penrhyn & Dinorwic Choir gan y cynhwysai bigion o leiswyr Chwarel Dinorwic. Cynhaliodd y côr ei gyngerdd olaf cyn hwylio yn Hope Hall, Lerpwl a theithiodd y bariton enwog, Ffranc Thomas, yno o Lundain i wasanaethu ei gyd-ardalwyr yn rhad ac am ddim. Uchelfannau'r cyngerdd hwnnw, medd gohebwy'r dydd, oedd unawdau Ffranc Davies, y gynulleidfa'n codi i orfoleddu'r tri datganiad a fynnod eu cael o'r 'Pilgrims' gan y côr, a'r ddeuawd 'Arwyr Cymru Fydd' gan Denorydd y Bryniau a David Gordon Williams. Coffa hyfryd am y ddau 'mhen blynyddoedd wedyn yn pyncio'r 'Arwyr' a 'Y Ddau Wladgarwr' ar wylnos Calan yng nghyngherddau'r Clwb. Roedd Tenorydd, erbyn hynny, yn frenin congl bwrdd drafft y Clwb a Defi Gordon yn cadw'r siop a'r caff cysylltiol â'r Clwb.

Drannoeth y cyngerdd yn Hope Hall, hwyliodd y côr ar y llong 'Vancouver' am America. Roedd Jacob Williams, Graig Lwyd,

ar ei bwrdd wedi llwyr berswadio Grace, ei wraig, a ofnai amdano ar y moroedd geirwon, y byddai'r llong yn mynd gyda'r glannau a'r côr yn dod i'r lan bob nos i gysgu. Pylodd atgofion am y côr ond daeth atgofion Jacob Williams yn rhan o lôn gwerin ein bro. Cystal i ni gofio hefyd bod Grace yn perthyn i genhedlaeth a gofiai'r 'City of Glasgow' pan suddodd y llong honno yn 1854 a cholli ugeiniau o chwarelwyr ifanc o'r Penrhyn a Dinorwic oedd wedi cefnu ar fryniau Arfon i geisio gloywach nen dros Fôr Iwerydd. Draw yn Racine, Wisconsin, roedd David Jones, Bryn Llys yn disgwyl am ei frawd a dyma'r llinellau (digon trwsogl efallai) o'i alargan:

'Ebeneser a Bethesda
Sy'n cynhyrchu llefau gant,
Ail i'r llefoedd draw yn 'Ramah'
Cân Rahel ar ôl ei phlant.
Llandegai a thref Caernarfon
Sy'n parhau o'r aethus glwy'
Am ryw blant aeth i'r gwaelodion
Fel nas gwelir monynt mwy.'

i'w barhau

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com



Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn ydy Gerry Baker, Swyddog Marchnata'r côr. Er nad ydy Gerry'n canu efo'r côr mae o wedi bod yn gefnogwr brwd i bob gweithgaredd o'n heiddo. Mae'n troi allan i bob cyngerdd a pherfformiad gan sefyll yng nghefn y neuadd neu'r eglwys i werthu nwyddau'r côr, boed rheiny'n docynnau neu'n gryno-ddisgiau. Y fo hefyd sy'n trefnu dyddiadau canu carolau i godi arian at elusennau y tu allan i leoedd fel storfa fawr Tesco ym Mangor, ac mae wedi cyfrannu'n helaeth at drefnu teithiau tramor y côr.

- Beth ydy dy enw llawn?** Gerry Baker
- Oed?** 74
- Gwaith?** Cadw tŷ gwely a brecwast gyda Mair, fy ngwraig. Cyn hynny, bŵm yn ymgynghorydd tai ac yn gweithio i Gynghorau Arfon a Gwynedd rhwng 1974 a 2006.
- Lle wyt ti'n byw?** Yn Llanfairfechan.
- Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Dinas, Llanwnda.
- Pa dri pheth fasa'n dy ddisgrifo orau?** Parchus a phwylllog / Amyneddgar ar y cyfan / Positif.
- Ers faint wyt ti'n efo'r côr?** Ers tua 2005.
- Pa lais wyt ti?** Uffernol 1.
- Pam ddechreuast ti ymwneud â'r côr?** Nifer o ffrindiau'n aelodau ac eisiau bod yn rhan o'r gymuned, yn arbennig am fod gan Mair gysylltiadau â Bethesda. Roedd ei mam, Maggie Owen, yn gyn-nyrs yn ysbyty'r chwarel.
- Pwy ydy dy hoff berfformwyr cerddorol?** Cant a mil ohonyn nhw gan gynnwys Côr y Penrhyn wrth gwrs. Yn y byd clasurol mae Andrea Bocelli ac Ivan Rebroff yn apelio; yn Gymraeg fy ffrifrynnau ydy Dafydd Iwan, Hogia'r Bonc a Bryn Fôn ac yn y byd poblogaidd dwi'n mwynhau Dire Straits a Queen ymhlith llawer o rai eraill.



Gerry Baker yn ei ardd yn Llanfairfechan (Llun: Mair Baker)

- Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Dwi'n mwynhau pob math o fwsig gan fod cerddoriaeth yn bwysig i mi.
- Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Oes, mynd i Legends Blues Club yn Chicago; perfformiad y côr yng Nghadeirlan York Minster; ymweld â Washington DC; Efrog Newydd a'r Bethesda Fountain yn Central Park, ac wrth gwrs, cael mynd ar y cae efo'r côr yn Stadiwm y Principality adeg gêm rygbi ryngwladol.
- Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Golff, Trenau (gwirfoddolwr ar reilffordd Eryri am gyfnod go hir) a theithio ledled y byd.
- Oes yna rywbeth faset ti'n hoff gweld y côr yn ei wneud?** Mi hoffwn i weld y côr yn cynnwys rhai o fy ffrifrynnau i ar eu CD nesaf, e.e. *Yma o hyd*, (D. Iwan) *Chwarelwr* (John ac Alun) a *Ceidwad y Goleudy* (Bryn Fôn) ac o bosib' fersiwn Gymraeg o *You'll Never Walk Alone* (Gerry & the Pacemakers).
- Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?** Dim ond diolch i'r côr am fy nioddef cyhyd a gobeithio y cawn wared â'r Covid-19 yn fuan.

Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr

Apêl Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg
Mae Cronfa Glyndŵr yr ysgolion Cymraeg wedi lansio apêl ariannol. Gwaith yr ymddiriedolaeth hon, a sefydlwyd yn 1963, yw dosbarthu grantiau i gylchoedd melthrin, ysgolion ac unrhyw fudiadau eraill sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg. Yn bennaf, dyfernir grantiau ar gyfer adnoddau, gwaith hyrwyddo a darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiad plant a phobl ifainc o'r Gymraeg. Yn sgil pandemig COVID-19, y mae'r Gronfa wedi cyrraedd croesffordd lle mae cyfanswm y ceisiadau yn fwy na'r incwm y mae'r Gronfa yn ei godi yn flynyddol. Bu'n flwyddyn anodd iawn i gylchoedd melthrin ac ysgolion ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y ceisiadau y mae'r Gronfa wedi'u derbyn.

Meddai Cadeirydd y Gronfa, Catrin Stevens, "Yn anffodus mae 2020-21, wedi bod yn flwyddyn heriol i addysg Gymraeg gyda chylchoedd melthrin dan warchae a mudiadau iaith dan straen. Er gwaetha'r anawsterau, maent yn benderfynol o ddal ati. Diffyg adnoddau sy'n eu llesteirio, ac o'r herwydd, mae wedi bod yn flwyddyn heriol i'r Gronfa hithau, gyda galwadau a gofynion yn llawer mwy niferus ac yn uwch nag yn y gorffennol. Yn wir, mae'n argyfwng, ac nid ydym bellach yn gallu ymateb i bob cais am gymorth er mor deilwng ydyw.

"Un o'r grwpiau i fanteisio ar un o grantiau'r gronfa yw Cylch Meithrin Pontypŵl, Cylch Meithrin gorau Cymru yn 2A21. Medd yr arweinydd, Helen Greenwood, "Fe gawson ni grant gan Gronfa Glyndŵr i brynu tocynnau I fynd i weld Sioe Rwtsh Ratsh Rala Rwdins yn Theatr y Borough yn Y Fenni. Roedd hwn yn gyfle gwych i'r plant a'u rhieni weld sioe fyw yn Gymraeg. Roedd y tocynnau yn eithaf drud a fyddai pawb ddim wedi gallu fforddio dod gyda ni heb y cymorth yma."

Gwneir yr apêl yn enw Llywydd Anrhydeddus y Gronfa, sef Cennard Davies, ac mae'n agored tan 30 Ebrill. Am fanylion pellach, dylid cysylltu â Mrs Catrin Stevens, y Cadeirydd, ar y ffôn: 01792893410 neu e-bost: Catrinstevens@outlook.com

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Gronfa trwy edrych ar <http://www.cronfaglyndwr.cymru>



Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

TEMPLE MORRIS A'I FAN

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

Blas ar Iaith Pesda

*"Dwâd i mi, lle ma' Cwil wân?"
"Nath o 'm symud i Pen, dwâd?"*

Mae'n arferiad cyffredin i gymdeithas dalfyrro ac ystumio enwau lleoedd wrth eu defnyddio ar lafar, a dydi Dyffryn Ogwen ddim gwahanol yn hyn o beth. Dyma i chi rai sy'n rhan o iaith bob dydd yr ardal: Pesda/Besda (Bethesda)

Llan (Llanllechid)

Llan'gai (Llandygái)

Tal'bont (Talybont)

Mynydd (Mynydd Llandygái)

Pen'groes (Penygroes – y rhan o Dregarth rhwng Pen-gamfa a fferm Penygroes.

Roedd Capel Penygroes yng nghanol

y rhan hon. Er mwyn gwahaniaethu, cyfeirid at Benygroes, Dyffryn Nantlle fel Pen'groes Llanllyfni.)

Bont'tŵr (Pont y Tŵr)

Ty'n'maes (Ty'n y Maes)

C'neddi (Carneddi)

Bont (Bont Uchaf)

Pen-llyn (Pen Llyn Ogwen)

Gallon-grydd (Caellwynrydd)

Clwrion/Crwrion (Cororion/Creuwyrion)

Pen'bryn (Penybryn)

Nant (Nant Ffrancon)

Pen-braich (Pen Braichmelyn)

Nant Fach (Nant y Gilfach Felen)

Afon Gentlys (Afon Gerrig Henlllys)

Foel (Moel Faban)

Chwarel Bryn (Chwarel Bryn Hafod y Wern)

Chwarel Cae (Chwarel Cae Braich y Cafn

– enw gwreiddiol Chwarel y Penrhyn. Ni chlywir yr enw hwn yn cael ei ddefnyddio ar lafar heddiw.)

Mae'n digwydd hefyd efo enwau lleoedd y tu allan i'r ardal. Dyma rai:

Abar (Abergwyngregyn)

Llanfar (Llanfairfechan)

Pen (Penmaenmawr)

Llanbêr (Llanberis)

Borth (Porthaethwy)

Blaena/Stiniog (Blaenau Ffestiniog)

C'narfon (Caernarfon)

Betws (Betws y Coed)

Port (Porthmadog)

Bliwmaras (Biwmares; ni chlywir yr ynganiad hwn erbyn heddiw.)

Mae yna hefyd enghreifftiau o lurgunio enwau, fel y cantlynol:

Pant-drein (Pant Dreiniog)

Braich-mêl (Braichmelyn)

Bont Ogs (Pont Ogwen)

Llyn Ogs (Llyn Ogwen)

Llyn Dunt (Llyn Deintur)

Llyn Droell (Llyn Droellen)

Colofn Cynhwysiad Digidol

Peidiwch â choelio'r e-byst ffug

Un o'r pynciau pwysicaf yr ydym yn rhoi hyfforddiant yw diogelwch ar y we – pwnc sy'n cael ei ystyried yn allweddol wrth helpu pobl i fagu hyder ar y we. Mae'r cyfnod pandemig wedi denu twyllwyr o bob math i gymryd mantais ar bobl hŷn yn arbennig. Yng ngwledydd Prydain yn 2019-20, llwyddodd twyllwyr i ddwyn £5.4 miliwn gan bobl ar y we, a dyma faes sy'n profi'n ffrwythlon i ddrwgweithredwyr oherwydd ein bod yn gwneud mwy a mwy ar y we erbyn hyn.

Yn union fel dysgu gyrru, mae'n bwysig eich bod yn dilyn arfer da ar y we – mae'r ffaith eich bod yn gallu gyrru car yn agor posibiliadau i chi fentro i ble bynnag y mynnoch, ond mae'n rhaid dilyn y rheolau a bod yn wylidwrus rhag y peryglon. Dyna'r union feddylfryd sydd angen wrth fynd ar y we er mwyn bod yn ddiogel. Mae'n agor byd newydd cyffrous i chi, ond rhaid bod yn ddiogel oherwydd mae profiadau gwael yn gallu bod yn glec i hyder, a'r peth olaf yr ydych chi eisiau ydi hynny.

Beth sy'n gyffredin iawn ydi e-byst ffug (*phishing* yn Saesneg). Os oes gennych chi gyfrif e-bost, mae'n fwy na thebyg eich bod wedi derbyn un o'r rhain yn sicr. Beth ydyn nhw? E-byst ydynt fel arfer yn ffugio eu bod wedi dod gan eich banc, BT, Amazon, o'r swyddfa dreth, gan y gwasanaeth iechyd, Ebay, paypal ac yn y blaen ac yn y blaen. Y ffordd fwyaf cyfleus a hawdd yw i leidr ddwyn eich pres yw i chi wirfoddoli eich pres iddynt neu roi'r 'allwedd' iddynt. Beth maent yn chwilio amdano yn fan'ma yw eich manylion banc neu fanylion personol. Os y cewch chi e-bost gan eich banc, sy'n gofyn am ddiweddarau eich manylion personol neu'n gofyn i chi glicio ar y ddolen o fewn yr e-bost, peidiwch da chi â gwrando arnynt. Mae'r banciau i gyd yn rhybuddio eu bod byth yn cysylltu gyda chi trwy e-bost yn gofyn am fanylion personol.

Os ydych wedi derbyn e-bost gan Amazon, er enghraifft, yn dweud fod pecyn ar ei ffordd i rywun arall, y cyngor gorau yma yw i fynd yn uniongyrchol at wefan Amazon a logio fewn yn fan'no, a wedyn mi fedrwn chi weld os oes yna eitem wedi cael ei brynu

gan rywun arall. Dilynwch y cyfarwyddyd hynny ymhob achos, ac os ydi Ebay neu fanc yn cysylltu, logiwch i mewn trwy'r ffordd arferol, ac nid trwy glicio ar ddolen mewn e-bost. Yr hyn sydd wedi dod yn gyffredin yn y flwyddyn ddiwethaf yw e-byst ffug yn honni eu bod yn dod o'r Gwasanaeth Iechyd yn cynnig brechlyn neu gysylltu ynghylch profi canfod ac olrhain. Peidiwch â chymryd sylw ar ddim byd sy'n dod trwy e-bost yn unig!

Cyngor arall pwysig yma yw i sicrhau fod ganddoch gyfrineiriau sy'n ddiogel. Yn aml na pheidio, mae gennym lawer o gyfrifon gwahanol efo Tesco, BT, EE, Next ac yn y blaen ac mae'n hawdd anghofio cyfrineiriau gwahanol, a'r demtasiwn yw i gadw'r un cyfrinair at bob un. Ond peidiwch â gwneud hynny oherwydd os ydi haciwr yn cael mynediad i un o'ch cyfrifon, yna, mae'n agor y drws i'r cyfrifon i gyd. Ceisiwch amrywio ar y cyfrinair a chael rhif, llythyren fawr, symbol, dau air cwbl anghysylltiedig, geiriau Cymraeg o fewn y cyfrinair. Ewch i howsecureismypassword.net i wirio os ydy eich cyfrinair yn ddigon diogel. Peidiwch â

phoeni, mae'r wefan yma yn gwbl ddiogel!


Wrth brynu nwyddau ar y we, mae'n bwysig gwirio os oes gan y wefan honno dystysgrif <https://> neu os yw'r symbol clo yn bresennol, mae hwn fel arfer wedi ei leoli o flaen cyfeiriad y wefan fel arfer ar dop ffenest y porwr. Mae'r rhain yn

angenrheidiol i nodi bod y safle yn ddiogel i drosglwyddo arian arni.

Cofwch hefyd sicrhau bod yna feddalwedd gwrth-feirws ar eich cyfrifiadur – mae'r rhain i'w cael am ddim, felly peidiwch â chymryd yr abwyd a thalu am un, na thalu am fersiwn arall mwy 'cynhwysfawr'.

Felly, ydi, mae yna beryglon yn bodoli, fel ym mhob dim ac mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o dwyll yn parhau i ddigwydd dros y ffôn. Ond yr hyn sy'n bwysig yw os ydych chi'n ymwybodol o'r peryglon ar y we, mae'r syniad o fynd ar y we yn llawer llai pryderus. Am ragor o wybodaeth ewch i <https://wales.getsafeonline.org/> Byddwch yn ddiogel ar y we, byddwch yn ofalus ac fe fydd y profiad wedyn yn gwbl bleserus. Yn y bôn, cofwch fod yn wylidwrus ar y we – a pheidio â gwneud penderfyniadau byrbwyll.


Os ydych chi'n rhan o fudiad neu mewn oed neu'n gweithio gyda phobl mewn oed ac angen cymorth digidol, mae croeso i chi e-bostio am gymorth, hyfforddiant a chyngor Cymunedau.Digidol@wales.coop



Negeseuon Ewyllys Da gan y plant

Cafwyd ymateb arbennig i gystadleuaeth ddiweddar Menter Iaith Bangor (ar y cyd â Bangor yn Gyntaf ac Arwerthwyr Tai Dafydd Hardy) i greu Neges Ewyllys Da ar gyfer 2021.

Cystadleuaeth ar gyfer plant ysgolion cynradd Bangor a Dyffryn Ogwen oedd hon ac roedd y posteri a ddaeth i law i gyd o safon uchel iawn. Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gystadlu, ac yn enwedig i'r saith a ddaeth i'r brig – mae pob un yn ennill llyfrau gan Wasg Carreg Gwalch a phe cyn hwyl. Rydym yn bwriadu arddangos y posteri ar Stryd Fawr Bangor unwaith y bydd rheolau Covid-19 wedi'u llacio. Ond yn y cyfamser, dyma'r saith poster buddugol i bawb gael eu gweld. Gobeithio y daw'r negeseuon am well flyddyn eleni yn wir!



Ifan Cai Hughes, Ysgol Llanllechid, gyda'i wobwr.



Honey Jones, Ysgol y Garnedd



Nest Durrant, Ysgol Llanllechid




Llinos Ball, Ysgol Llanllechid



Angharad Ball, Ysgol Llanllechid



Ifan Cai Hughes, Ysgol Llanllechid



Efa Owen, Ysgol y Garnedd

Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr,

DIOGELWN
- cynllun newydd i ddiogelu enwau Cymraeg ar dai

Hoffwn, trwy gyfrwng eich colofn lythron, dynnu sylw eich darllenwyr at gynllun newydd o'r enw **DIOGELWN** y mae Cymdeithas yr Iaith wedi'i lansio.

Bwriad y cynllun yw diogelu enwau Cymraeg ar dai er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r syniad sydd wrth wraidd y cynllun yn un syml iawn, ac yn berthnasol i bawb sy'n byw yng Nghymru ac sy'n berchen ar dŷ ag enw Cymraeg.

- **Os ydych ar fin gwerthu eich tŷ:** gallwch ofyn i'ch cyfreithiwr gynnwys cymal penodol yn y cytundeb gwerthu er mwyn atal prynwyr a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.
- **Os nad ydych yn bwriadu gwerthu'ch tŷ:** gallwch ddiogelu'r enw trwy lofnodi a chofrestru cytundeb (gyda chymorth eich cyfreithiwr) er mwyn atal prynwyr neu gymynderbynwyr o dan eich Ewyllys chi a'u holynwyr mewn teitl rhag newid yr enw yn y dyfodol.

Mae'r dogfennau perthnasol (sydd wedi'u paratoi gan ein cyfreithwyr) ar gael ar wefan y Gymdeithas i'w lawrlwytho. Ewch i cymdeithas.cymru/diogelwn (neu gallwch ffonio 01970-624501 a gallwn anfon y dogfennau atoch trwy'r post).

Yn gywir,
Mabli Siriol
Cadeirydd



Seren Lois Roberts, Ysgol Pen-y-bryn

Yng nghwmni'r adar

aderyn
llwynog



Os bydd llwynog o gwmpas, bydd yr aderyn hwn yn sboncio o graig i graig yn galw'n rhybuddiol. Mae'n nythu mewn llwyn neu ymysg creigiau ac mae i'w weld ar dro yng nghymoedd crog Nant Ffrancon.

Mae gan wahanol ardaloedd eu henwau benodol eu hunain ar adar ein gwlad, a cheir rhestrau ohonynt yn y ddau lyfr hynod ddiddorol a defnyddiol, *Enwau Adar* gan Dewi Lewis a *Llyfr Adar Iolo Williams*. Yn naturiol, nid yw pob enw lleol wedi ei gynnwys ynddyn nhw. Dyma i chi enwau lleol Dyffryn Ogwen ar rai o'n hadar, efo'r enwau safonol yn dilyn:

- aderyn llwynog (mwyalchen y mynydd)
- iâr fynydd (grugiar)
- y genlli goch (cudyll coch)
- asgell fraith (ji-binc)
- aderyn naw (troellwr; yr eglurhad am yr enw aderyn naw ydi bydd ei alwad – fel sŵn rîl genwair – i'w chlywed yn glir wrth iddi dywyllu tua naw o'r gloch ar nosweithiau tawel ym mis Mai.)
- pigfelan (mwyalchen/aderyn du pigfelen)
- gwalch glas (hebog tramor)
- asgell aur (nico)
- mwyalchen y dŵr (bronwen y dŵr/trochwr)
- bronfraith fawr (brych y coed)
- llwyd y berth (llwyd y gwrych)

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Cydymdeimlo

Bu farw Emyr Roberts, Ffordd Ffrydlas, Bethesda, a chydymdeimlwn gyda theulu Ffarm Dob, sef ei fab Nigel a'i briod Sioned a'r plant Gwenno a Iestyn a gweddill y teulu.

Gwella

Anfonwn ein cofon at Beti Morris, Ffordd Tanrhiw, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Penrhos, Caergybi, ond sydd bellach ym Mhlas Ogwen, Bethesda, Daliwch i fendio, Bet.

Profedigaeth

Ar Chwefror 18, yn ei chartref 18 Maes Ogwen, bu farw Mary Griffiths. Cydymdeimlwn gyda'i gŵr Keith a'r plant Timothy a Rachel a'r ŵyr, Leon. Bu'r angladd yn ei chartref ac yna ym

Mynwent Coetmor, Bethesda. Cydymdeimlwn gyda theulu James Anthony Dean, Waen y Pandy fu farw ar Chwefror 21 yn 71 oed. Bu James yn gweithio am flynyddoedd yn Ffatri Bradite, Coed y Parc. Anfonwn ein cofon a'n cydymdeimlad â'i briod Judy a'r genod Kate a Sarah. Bu ei angladd yn Amlogsgfa Bangor ar Fawrth 8.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Sarah Griffiths, Ffordd Tanrhiw fu farw yn 76 mlwydd oed, ar Chwefror 24, adref yn ei chartref. Cydymdeimlir gyda Tecwyn ei gŵr, a'r plant Gary, Rhian, Dylan a John, a'i brawd Terence. Bu ei hangladd ym Mynwent Pentir ar Fawrth 10. Pob cydymdeimlad hefo chi fel teulu yn eich hiraeth ar ôl Sarah.



Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr,
Heuldro Ogwen

Oeddech chi'n ymwybodol o gynllun Heuldro Ogwen weithredwyd gan Ynni Ogwen flwyddyn yn ôl?

Roedd Ynni Ogwen yn cynnig gosod paneli solar ar doeu sefydliadau cymunedol a chyhoeddus ym Methesda gyda'r bwriad o leihau ôl troed carbon y safle, lleihau eu biliau trydan a dangos esiampl i aelodau, defnyddwyr ac ymwelwyr.

Y syniad oedd i Ynni Ogwen osod, cysylltu a gweinyddu'r gosodiadau solar; y byddai Ynni Ogwen, perchnogion y gosodiadau, yn adennill eu buddsoddiad drwy'r FiT (Feed in Tariff); ac y byddai'r

sefydliad ble eu gosodwyd yn cael y trydan a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ganddynt yn llawer rhatach. Pawb ar eu hennill.

Yn wreiddiol roedd 15 sefydliad wedi cael eu cyn-gofrestru ar gyfer Feed In Tariff (FiT) cyn i'r cynllun hwnnw ddod i ben. Am wahanol resymau, 6 safle aeth ymlaen â'r cynllun, sef Clwb Rygbi Bethesda, swyddfa Partneriaeth Ogwen, Neuadd Ogwen, Clwb Criced a Bowlio Bethesda, Y Llyfrgell, a'r Caban Cysgu yn y Gerlan.

Cafwyd cymorth gan gwmni Datblygiadau Egni Gwledig (DEG) a phrosiect ECCO, cynllun Interreg Gogledd Orllewin Ewrop (trwy gwmni The Green Valleys) i reoli, cydlynu a gweinyddu'r prosiect gosod a chomisiynu. Pethau

fel Tystysgrif Perfformiad Ynni, cytundebau prydlesu to a gwerthu trydan, arolwg strwythurol, trefniadau derbyn FiT gan gyflenwr trydan, mesur a monitro, bilio, cytundebu gyda gosodwr yn ogystal â sicrhau yswiriant a chyllideb. Aeth y gwaith yn ei flaen yn eithaf. Bu mân gamgymeriadau ar hyd y ffordd a dysgwyd gwersi.

Cafodd y gwaith ei gwblhau ar amser (bron iawn) ac o fewn y gyllideb (ddiwygiedig) ac yna, pan oedd yn amser eistedd yn ôl i adolygu, man addasu a gwerthuso ... trawodd y pla!

Mae'r flwyddyn ddiwethaf, y cloi a'r cyfyngu, wedi cael effaith bersonol arnom i gyd ac ar fusnesau, yn enwedig busnesau cymdeithasol eu natur ble mae pobl yn ymgynnull neu'n ymweld. Anodd felly i unrhyw

un o'r sefydliadau dderbyniodd osodiadau solar gan Ynni Ogwen i werthuso'r effaith mae'r paneli solar wedi ei gael. Y flwyddyn nesaf efallai? Saff yw dweud, p'run bynnag, bod y gosodiadau yn adlewyrchiad o barodrwydd sefydliadau cymunedol a chymdeithasol Bethesda i weithredu er lles eu cymunedau a'u hamgylchedd, a bod gwaith Ynni Ogwen yn cael ei drafod ledled Ewrop fel ymarfer da ym maes ynni cymunedol. Yn gywir, Wil Parry The Green Valleys ECCO, Interreg Gogledd Orllewin Ewrop



CHWILAIR

CHWILAIR MAWRTH

Trefi a Phentrefi Cymru

Yn y Chwilair y mis yma mae ENWAU DEUDEG TREF NEU BENTREF YNG NGHYMRU i'w canfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA. UN I'CH DIDDORI YN UNIG YW.

Dyma atebion Chwilair Chwefror: Dwyn i Gof a Dyna i Gyd; Y Faciwi; Afal Drwg Adda; Byd Moc; Elystan Atgofion Oes; Tuchan o Flaen Duw; Pleserau Plismon; Straeon Harri Bach; Bois y Loris; Y Lôn Wen; Merch o'r Cwm.

A	A	W	C	T	F	H	R	I	A	B	E	R	D	A	R	O	N	E	J
L	C	M	B	A	R	H	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	E	I
M	D	G	V	H	E	E	A	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D
N	A	O	P	A	U	R	F	R	A	R	T	H	O	G	Q	U	S	O	F
R	P	Y	L	Q	Z	G	N	O	L	R	H	C	U	M	W	N	O	Y	R
I	A	S	Z	W	U	T	F	A	R	E	D	X	U	P	W	R	H	C	Q
H	H	W	E	H	Y	O	Y	E	R	Y	C	E	G	E	O	M	H	E	P
T	C	T	C	B	B	D	C	U	U	F	S	H	J	P	L	T	M	I	V
V	A	D	C	B	B	F	D	R	F	O	O	G	J	V	I	I	R	R	X
I	B	D	M	H	T	T	O	E	S	K	O	N	P	W	R	C	M	K	C
B	S	I	O	R	C	W	X	V	L	R	Y	H	S	T	M	R	E	F	Y
J	Y	H	D	Z	H	I	B	C	W	A	O	S	C	R	A	I	X	N	I
N	W	C	L	X	J	R	J	M	B	W	N	T	E	X	I	M	D	X	K
U	L	E	F	U	P	F	C	Q	Y	O	I	L	F	E	L	R	Z	Q	R
H	G	L	O	C	T	E	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	E	A	J	K
R	E	L	J	C	L	R	N	L	R	V	O	G	J	P	H	W	P	G	S
E	O	N	W	B	E	T	W	S	G	A	R	M	O	N	L	J	J	Q	U
A	L	A	F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	L	E	A	F	X
C	I	L	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	W	D	S	I	K
O	G	L	D	H	B	S	I	U	R	O	X	A	G	X	P	R	A	E	E



Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn

“Gwella Cartrefi, Newid Bywydau”

Dros 60oed? Angen cyngor ar addasu neu drwsio eich tŷ?

Ffoniwch am fwy o wybodaeth

0300 111 3333



Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn



Gwasanaeth a reolir gan



Y CLWB BOWLIO

Colli aelod amlwg a phoblogaidd

Tristwch o'r mwyaf i dimau bowllo Bethesda yw gorfod nodi marwolaeth Emyr Peris Roberts, 11 Ffordd Ffrydlas. Roedd Em wedi bod yn aelod poblogaidd gan bawb o dimau canol yr wythnos a thimau penwythnos y Clwb Bowllo.

Roedd o'n arbennig o hoff o chwarae efo'r tîm hŷn a bu'n chwarae'n gyson iddynt dros nifer o flynyddoedd. Yn y gaeaf roedd o'n mwynhau teithio i chwarae bowls dan do ym

Mhrestatyn, a mawr y tynnu coes a'r herian fyddai'n digwydd ar dripiâu felly. Bu Emyr yn aelod o'r Clwb Criced a Bowllo am amser maith yn ystod ei gyfnod fel peiriannydd yn y chwarel ac wedi iddo ymdeol, a bydd bwltch mawr ar ei ôl yn y gymdeithas arbennig honno.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Margaret, ei briod, ac at ei blant a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cymerodd nifer o aelodau'r dyffryn ran yng Nghyfarfod Blyneddol Plaid Lafur Etholaeth Arfon ym mis Chwefror ar Zoom. Etholwyd Godfrey Northam (Rachub) yn gadeirydd a Tom Corns (Carneddi) yn is-gadeirydd. O hyn ymlaen bydd yr aelodau'n canolbwyntio ar etholiad Senedd Cymru, sydd i fod ar ddechrau mis Mai. Bydd yr etholiad yn wahanol am nad ydy aelodau'r pleidiau'n cael cnocio ar ddrysau a dosbarthu taflenni ar hyn o bryd.

Mae gan Lywodraeth Lafur Cymru uchelgais o weld 30% o'r gweithlu'n gweithio gartref yn y dyfodol, a chafwyd

newyddion am brysurdeb y llywodraeth e.e. bydd y targed o greu ugain mil o gartrefi fforddiadwy newydd yn cael ei gyrraedd cyn mis Mai, a bydd nifer o gynghorau yn treialu cyfyngu traffig i 20 milltir yr awr mewn ardaloedd sydd â nifer sylweddol o dai. Wrth gymharu troseddau yn Rhagfyr 2019 efo Rhagfyr 2020, roedd gostyngiad sylweddol iawn yn y nifer o droseddau ac (yn wahanol i Loegr) cyflwynwyd cynllun o brydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol, a chyflwynwyd cynllun i ostwng treth cyngor i bobl anghenus.

CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATŪ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
Neville Hughes 600853

WELSH SLATE
Part of the Breedon Group

Gall patios droi eich gardd
yn lle allanol i fyw, i ymlacio,
mwynhau neu weithio tu allan



**CLADIO PALMANTAU TOEAU
LLORIAU WALIAU TIRLUNIO**

Mae Welsh Slate ar gael i brynu ar-lein
ar www.ukstonedirect.com

Chwarel Penrhyn, Bethesda, Bangor Gwynedd, LL57 4YG
Ffôn 01248 600656

Nyth y Gân

SAFFRWM

Trwy'r rhew a'r gaeafwynt trwm – y daw hi
Yn daer yn yr hirlwm;
Yn effro daw y saffrwm
I roi lliw i'r tymor llwm.



EINIOES DYN

I ddyn rhoed amryw ddoniau – yn ei fyw,
Rhoed i'w fyd rasmusau;
Iddo er rhif ei ddyddiau
Onid braint ei fywyd brau.

NYRS

Mwyn ei gwên yma'n gweini, – yn gyfan
Ei gofal a'i chwmni;
O'i chalon daw haelioni,
Ac i'r gwan, hafan yw hi.

Y FALWODEN

Hynod yw ffurf malwoden – a'i hystum,
Mae'n ddistaw'n ei chragen
Cyn llithro i'w hogof hen,
I'w lloches dan y llechen.

Y WAWR

Tangnefedd a rhyfeddod – y wawrddydd,
Mor hardd yn ei wiwodod;
Enfawr o Dduw ei hanfod,
Diledryw i'n byw a'n bod.

Ar y gorwel annelwig – y llafnau'n
Welw a llyfn am orig;
Tafod wineu gyntefig
Ar fryn hyd gyrrau ei frig.

Ymyl o olau'n rhimyn, – yn hudol
Yn ei wrid amheuthun,
A'i ôl brwd uwch ael y bryn
Yn gwrel ar ei gorun.

Glwys ydyw'r dydd yn glasu – yn loyw
A glân ei risialu;
Lleufer ddi-staen yn taenu
Naws ei ddawns wedi'r nos ddu.

Goronwy Wyn Owen

Y GÂN AR Y MYNYDD

O! am alaw o'r meini; ehedydd
O hyd yn telori;
Yn siŵr fe gawn drysori
Rhyngom nawr beth glywsom ni.



RHWD

Mor dawel yw'r hen elyn, o'i gychwyn
Mae'n goch ac yn felyn
I lwyddo i droi sawl addurn
Yn foel yn y man a fyn.

EIN DDOE

O hyd mae'n llai cofiadwy; yn y cof
Mae'n cau fel tae'r adwy;
Y dedwydd a'r credadwy,
O'r un tir y rhennid hwy.

STÔL DRITHROED

Hen stôl ar waith erstalwm, un â'i steil
Yn stond a di-godwm;
Ei llun a'i symlwydd llwm
A'n dwg i oes y degwm.

Y GÂN ATGOFUS

Machludo yn araf fu'r haul dros y môr
A gwrando fu'r gŵr ar gantorion y côr.
Cymysgedd o leisiau'r chwarelwyr oedd 'rhain,
Y baswyr yn drwm a'r gweddill yn fain.

Ei gario a gafodd gan eiriau un gân
Fu'n sôn am y tlodi a'r teulu oedd fân,
Streic fawr y pryd hynny a rwygodd y fro
Heb fawr ddim i'w fwya o dan yr un to.

Fe redodd sawl deigryn yn aml gan rai
O orfod ymadael a gwagio eu tai,
Ac ail-yngartrefu wrth lofa y cwm
Ble roedd y gwaith yno mor galed a llwm.

Ni allwn anghofio y chwarel na'r graith
A yrrodd sawl streiciwr ar deithiau mor faith.
Mae'n dal i fod yma yr hanes o hyd
A'r llechi yn gorwedd ar doeau drwy'r byd.

Dafydd Morris

Pigiad

gan Rob Evans

Yn ystod mis Ionawr mi wnaeth y syniad fy nharo fi bod y gair 'pigiad' yn llawer gwell na'r gair Saesneg 'jab'. Mae 'jab' yn awgrymu gweithred sydyn a diofal tra bod 'pigiad' yn awgrymu rhywbeth mwy gofalus a thyner. Dydi o ddim yn help bod 'jab' yn odli efo 'stab'.

Chi'n gweld, roeddwn i wedi cael y llythyr i ddweud 'mod i'n mynd i gael y pigiad yn ystod yr wythnosau canlynol ac i ddisgwyl y llythyr a fydd yn cadarnhau'r apwyntiad.

Roedd fy meddwl i'n mynd yn ôl i fy nyddiau ysgol a'r diwrnod pan oedd y nyrs yn galw i roi injecshyn i ni. Dyna beth oedd o yn y dyddiau hynny, roedden ni'n cael injecshyn achos roedd hyn cyn i rywun benderfynu bydd y gair 'pigiad' yn llawer gwell. Doedd dim sensitifrwydd am y peth, roedd holl blant y dosbarth yn sefyll mewn rhes ac yn gweld pob plentyn o'u blaenau yn gwingo mewn poen. Os oeddech chi ar ddiwedd y rhes roeddech chi wedi codi ofn yn ddifrifol erbyn eich tro chi.

Chi bobl ifanc! Does gennyh chi ddim syniad o faint oedden ni'n gorfod ei ddiodeff!

Mae pethau'n llawer gwell erbyn hyn wrth gwrs, ac roeddwn i'n edrych ymlaen at gael y peth drosodd. Am chwech o'r gloch ar ddiwrnod olaf mis Ionawr roeddwn i'n eistedd yn yr adeilad yma oedd wedi cael ei addasu ar gyfer marathonau o bigiadau. Chwarae teg i'r Gwasanaeth Iechyd, roedd y ffordd o weithio yn reit slic. Roedden ni i gyd yn eistedd ar gadeiriau ar ddwy ochr yr ystafell hirsgwar a fi oedd y cyntaf yn y rhes. Dyma'r nyrs yn dod ataf fi efo'i throli, tynnu clipfwrdd allan ac yn cadarnhau fy enw a chyfeiriad ac ati, ac wedyn yn gofyn cwestiynau am fy nghyflwr iechyd. Dw i'n falch o ddweud fy mod i wedi ymateb pob un yn gywir ac fel gwobr am hynny ces i'r pigiad. Wedyn mi nes i siomi fy hun, ia, mi nes i grio! Ond roeddwn i'n teimlo'n llawer gwell ar ôl i'r nyrs roi cwtsh i mi!

Hen dric dw i'n gwybod, ond mae'n gweithio bob tro!

Codi Tai yng Nghae Rhosydd



Yn ystod ail hanner 2019, derbyniodd cymdeithas dai Adra ganiatâd cynllunio gan Gyngor Gwynedd i ddatblygu ystâd o 30 o dai cymysg (15 o dai cymdeithasol a 15 o dai marchnad agored) ar safle Cae Rhosydd (tir pori) gyferbyn â Maes Bleddyn yn Rachub. Datganwyd ar y pryd bod y cymysgedd hwn o dai yn cyfarfod y galw yn lleol o fewn wardiau Bethesda, Gerlan ac Arllechwedd am dai cymdeithasol a thai marchnad agored.

Yn sgil gohebiaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng Cylch yr Iaith a chymdeithas dai Adra a Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r mesurau a weithredir gan yr awdurdodau i sicrhau bod tai marchnad agored yn cael eu targedu yn benodol i'w gwerthu ar gyfer cyfarch y galw o fewn y farchnad leol, daeth yn amlwg bod cymdeithas dai Adra wedi derbyn caniatâd yn ystod Rhagfyr 2020 i newid natur y datblygiad ar safle Cae Rhosydd o'r hyn a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn wreiddiol. Erbyn hyn, y bwriad yw datblygu 30 o dai cymdeithasol ar rent cyffredinol neu ganolraddol yn unig ar y safle, sy'n golygu na fydd darpariaeth tai marchnad agored ar gael i gyfarfod y galw'n lleol.

Dywedir y bydd lefelau rhent yr unedau fforddiadwy yn unol â gofynion Polisi Rhent Llywodraeth Cymru ac Adra fel Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac y byddant yn cael eu dyrannu i bobl sydd ar Restr Tîm Opsiynau Tai y cyngor sir neu/ac wedi eu cofrestru gyda Tai Teg yn unol â pholisi rhentu lleol. Yn ogystal, derbyniwyd y manylion canlynol i gefnogi'r cais:

O fewn ward Rachub ar hyn o bryd mae 103 o bobl ar Restr Tîm Opsiynau Tai y cyngor sir mewn angen am unedau 1 i 5 llofft gan gynnwys 8% angen byngalo 2 llofft; 9% angen fflat 1 llofft; 11% angen

fflat 2 llofft; 19% angen tŷ 2 llofft a 14% angen tŷ 3 llofft.

Mae'r ffigyrau uchod ar y Rhestr Tîm Opsiynau Tai yn cynyddu'n sylweddol pe bai wardiau cyfagos yn cael eu hystyried sy'n cynnwys Llanllechid, Ogwen, Tregarth, Gerlan a Bethesda ble mae 258 angen tŷ 1 llofft, 355 angen tŷ 2 llofft, 180 angen tŷ 3 llofft, 56 angen tŷ 4 llofft, a 3 angen tŷ 5 llofft.

Mae Adra yn rheoli 53 unedau rhentu cymdeithasol yn Rachub, a byddai darparu unedau 2 a 3 llofft yn creu cyfle i deuluoedd sydd yn bresennol mewn unedau anaddas i gael cartref gyda gardd breifat o fewn safle hygyrch a chynaliadwy. Mae treth ar loffydd wedi cael effaith negyddol ar nifer o denantiaid oherwydd tan-feddiannu o'u heiddo ac angen ail-gartrefu mewn unedau llai ac oherwydd hyn yn atal teuluoedd cael mynediad i dai mwy.

Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys 10 tŷ rhent canolraddol ar gyfer bobl sydd ddim ar y rhestr am dai cymdeithasol, sydd ddim yn ddibynnol ar fudd-daliadau ac sy'n cael cyflog rhwng £16,000 a £45,000 y flwyddyn. Bydd lefelau rhent canolraddol oddeutu 80% o lefelau rhent cyffredol ar gyfer tai cyffelyb o fewn yr ardal. Byddai darpar-ddeiliaid yn cael eu harchwilio gan Tai Teg ar gyfer tai rhent canolraddol.

Erbyn hyn, dywedir y bydd cymysgedd yr unedau rhent cymdeithasol a rhent canolraddol (intermediate rent) ar y safle fel a ganlyn:

Cymysgedd Tai	Rhent Cymdeithasol	Rhent Canolraddol
Tŷ 2 llofft	10 uned	4 uned
Byngalo 2 llofft	4 uned	
Tŷ 3 llofft	5 uned	6 uned
Tŷ 4 llofft	1 uned	
	20 uned	10 uned

Bydd darpar-denantiaid yr unedau rhent cymdeithasol yn cael eu dethol oddi ar restrau ymgeiswyr sydd wedi ei nodi ar fas data'r Tîm Opsiynau Tai. Gweinyddir bas data'r Tîm Opsiynau Tai gan Gyngor Gwynedd.

Bydd darpar-denantiaid yr unedau rhent canolraddol yn cael eu dethol oddi ar restrau ymgeiswyr sydd wedi ei nodi ar fas data Tai Teg a weinyddir gan Grŵp Cynefin.




Croesair Mawrth 2021

AR DRAWS

- 1 Dawns enwog o wlad y Wladfa (5)
- 4 Dinas y cig moch enwog o'r Eidal (5)
- 10 Seti croes i yfed dŵr - dim alcohol o gwbl (7)
- 11 I'w erw ar ffrwst aiff y gynffonog (5)
- 12 "----- lesu boed fy meddwl,
Am dy gariad boed fy nghân." (*Pantycelyn*) (5)
- 13 Nid yw o'r ffordd orau i gael eich cosbi'n aml (7)
- 15 Aberthu llo ar hwn (4)
- 17 Llac o'i afael - felly bod yn ddoethach i roi trefn ar bethau (5)
- 19 Yn dda i chi (5)
- 22 Tasg ddyrys darganfod rhywedd y ci (4)
- 25 Siop awyr agored fel ar faes yr Eisteddfod (7)
- 27 Perthnasol i ddannedd neu gerdd dant (5)
- 29 Yn syth mewn cynllun i onestrwydd (5)
- 30 Ges di damaid bach o bicnic efo dy baned (7)
- 31 Gwell na dal dy wynt, rhag i ti fygu (5)
- 32 Mae'r blaenoriaid yn gofyn a ddont o lefydd iawn i wneud hyn (5)

I LAWR

- 2 Cael ffrwythau bychain wrth adael tref yng Ngheredigion (5)
- 3 Dechrau edrych mewn tasg i'w chwblhau i gael llefydd i aros (7)
- 5 Edmygwch nhw, "----- glew erwau'r glo" (5)
- 6 Nid bychan yr hyn a wneir yn 5 I LAWR (7)
- 7 Swnio fel pryfed pen rhyfedd mewn pennill (5)
- 8 Tresio bwrw, pistyllio glaw (*ar lafar yn Arfon*) (5)
- 9 Jonathan i Dafydd (5)
- 14 Cantores Gymraeg yn enwog am ei record "Pererin Wyf" (1971) (4)
- 16 Rhag drysu a'i golli mi fasa'n well hurio un dros dro (4)
- 18 Gwrandawiaidau mewn llys barn (7)
- 20 Casineb llwyr (7)
- 21 "----- cysgu" - 'cysgu llwynog' (5)
- 23 Mae Bala'n lle croes i'r rhai sy'n cael anhawster symud (5)
- 24 3 neu 7 neu 11 (5)
- 26 Nid od bod yn drefnus i fod yn ddisylw a chyffredin (5)
- 28 Ceisio'n aflwyddiannus i wisgo'n ffasiynol - "----- ar ben stôl" (5)



ATEBION CROESAIR CHWEFROR 2021

AR DRAWS 1 Amod, 4 Ynte, 8 Ymddiheuriad, 9 Dwy Gân, 10 Oerfel, 11 Unoli, 12 Stryd, 16 Ysgafn, 18 Gwlychu, 19 Awstralia, 20 Proc, 21 Rama

I LAWR 2 Meddygol, 3 Dihuno, 4 Ymunodd, 5 Teiar, 6 Cymwynasgar, 7 Adlewyrchiad, 13 Talasom, 14 Anorac, 15 Sgolor, 17 Amser,

Ni fyddwn yn ystyried y Croesair fel cystadleuaeth nes y daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma, gofynnir i chi'n garedig **i beidio** ag anfon atebion fel arfer mewn e-bost na thrwy'r post na thrwy'r twll llythyrau. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y Croesair uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori mewn cyfnod mor ddiflas!! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael ynddi o ddiifri unwaith eto.



Siân Gwellian

Aelod o'r Senedd dros Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwellian@senedd.cymru



Hywel Williams

**Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon**

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Helpwch
y cwningod
i liwio'r
wyau.



DYMUNA
SIÂN GWENLLIAN
DDWEUD
DIOLCH
O GALON
I WEITHWYR ALLWEDDOL
A GWIRFODDOLWYR
YN YSTOD Y CYFNOD COVID

OBLAID.CYMRU

01286 672076



Plaid Cymru
Party of Wales